

BRITISH COUNCIL

# Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2024

## Addysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16

Gan Jayne Duff, Aisling O'Boyle ac Ian Collen
Prifysgol Queen's Belffast

www.britishcouncil.org

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan British Council Cymru | 03 |
| Cyflwyniad | 04 |
| Prif Ganfyddiadau 2024 | 04 |
| Cyd-destun a chefndir polisi | 05 |
| Amlinelliad o'r ymchwil | 05 |
| Ffigurau arholiadau cyhoeddus | 07 |
| Canfyddiadau arolwg ysgolion uwchradd | 10 |
| Canfyddiadau arolwg colegau ôl-16 | 26 |
| Dathlu ieithoedd cynradd | 30 |
| Casgliad | 43 |
| Llyfryddiaeth/Cyfeiriadau | 44 |
| Atodiad | 45 |

# Rhagair gan British Council Cymru

Yn British Council Cymru, rydym yn anelu i greu cyfleoedd rhyngwladol unigryw i bobl ledled Cymru - gyda'r nod yn y pendraw o gyfrannu i heddwch a ffyniant ein byd. Fel Cyfarwyddwr y genhadaeth honno ac fel ieithydd balch mae ein hymchwil blynyddol i Dueddiadau Ieithoedd yng Nghymru mor berthnasol ag erioed. Mae Cymru ar ei gorau pan mae'n edrych tuag allan. Mae Ieithoedd Rhyngwladol yn chwarae rhan allweddol yn y broses o greu'r meddylfryd eangfrydig hwnnw a chreu dinasyddion byd-eang ein dyfodol

Mae dysgu ieithoedd o oed ifanc wedi newid fy mywyd er gwell. Maent wedi llywio fy astudiaethau academaidd, llwybr fy ngyrfa a fy mherthnasoedd, a byddant yn parhau i lywio fy nyfodol. Mae ieithoedd wedi agor drysau i deithio, cwrdd â phobl newydd, profi diwylliannau newydd, ac i anturiaethau a busnes newydd - ym maes diplomyddiaeth ddiwylliannol ac ym myd masnach. Ond rhaid peidio gorffwys ar ein rhwyfau yn y byd Saesneg a Chymraeg ei iaith gan dybio y bydd y byd yn plygu i siarad ein hiaith ac nad oes angen felly i ni siarad ieithoedd y byd. Rhaid i ni beidio â diystyru'r holl lwyfannau, cyfleoedd a ffenestri ar y byd y gall y pleser o siarad Iaith Ryngwladol eu cynnig. Mae siarad Iaith Ryngwladol fel meddiannu pŵer aruthrol. A gall fod yn ddefnyddiol ar yr adegau mwyaf anisgwyl...

Mae British Council Cymru'n falch i gefnogi ac eiriol ar ran addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion a thu hwnt. Ein gobaith yw y bydd plant yn fwy tueddol o ddysgu ieithoedd wrth iddynt dyfu os cânt gyfle i ddysgu iaith yn ifanc. Gall y Gymraeg chwarae rhan yn amlieithrwydd ein gwlad. A thra bod y Gymraeg a'r Saesneg yn rhan allweddol o'n hunaniaeth, rydym yn credu fod meistroli Ieithoedd Rhyngwladol ychwanegol yn hollbwysig i gynnal uchelgais Cymru o fod yn wlad eangfrydig â chysylltiadau cadarn ledled y byd. Mewn byd lle mae'r sgwrs draws-ddiwylliannol a chydweithio'n rhan cynyddol bwysig o fasnach, busnes, cysylltiadau, symudedd, dealltwriaeth ddiwylliannol a heddwch, mae dysgu a siarad gwahanol ieithoedd yn ein grymuso i gyrraedd ein nod o fod yn ddinasyddion byd-eang dros Gymru.

Ein gobaith yw y bydd canfyddiadau adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2024* yn parhau i ysbrydoli sgyrsiau ystyriol a gweithredu ym maes addysgu a dysgu ieithoedd, i sicrhau bod Cymru'n wlad eangfrydig sy'n ymgysylltu'n fyd-eang am flynyddoedd i ddod.

Ruth Cocks
Cyfarwyddwr, British Council Cymru

# Cyflwyniad

Mae *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* yn arolwg blynyddol sy'n casglu gwybodaeth am sefyllfa addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol[1] mewn ysgolion a gynhelir a cholegau ôl-16 yng Nghymru. Nod yr ymchwil yma yw: (i) olrhain tueddiadau addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol dros y blynyddoedd; (ii) asesu effaith mesurau polisi o ran Ieithoedd Rhyngwladol; a (iii) adlewyrchu cyd-destun presennol addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol ar sail data meintiol a sylwadau a barn athrawon. Eleni, yn lle anfon holiadur i ysgolion cynradd, gwahoddwyd disgyblion Blwyddyn 6 i lunio posteri ar y thema o ddysgu ieithoedd a'u hanfon atom. Rydym wedi cynnwys adran newydd yn adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* eleni sy'n rhannu lleisiau a barn disgyblion yn ogystal â'u creadigrwydd. Cafodd arolwg cyntaf *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* ei gynnal yn 2015 ac mae'n rhan o gyfres gyson o arolygon sy'n cael eu cynnal yn y Deyrnas Unedig; mae arolwg blynyddol wedi cael ei gynnal yn Lloegr ers 2002, ac arolwg bob dwy flynedd yng Ngogledd Iwerddon ers 2019 a bydd adroddiad Tueddiadau Ieithoedd cyntaf ar gyfer yr Alban yn cael ei gyhoeddi ddechrau 2025. Gellir gweld yr holl adroddiadau blaenorol ar wefan British Council y wlad berthnasol. Mae adroddiadau *Tueddiadau Ieithoedd* yn dangos newidiadau cyffredinol o ran addysgu a dysgu ieithoedd, ac maent yn sbardun i athrawon, arweinwyr ysgolion, academyddion, arolygwyr, llunwyr polisi, disgyblion ysgol a'r cyhoedd i roi ystyriaeth ddyfnach i agweddau o addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol.

Eleni, cafodd tîm o ymchwilwyr o Brifysgol Queen's yn Belffast eu cytundebu gan British Council Cymru i gynnal arolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2024.* Mae'r tîm wedi gwneud gwaith tebyg i'r British Council yn y gorffennol ac mae'n cynnwys aelodau sydd â phrofiad o addysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn y Deyrnas Unedig a thramor.

Ar ran British Council Cymru a Phrifysgol Queen's Belffast, hoffem ddiolch yn ffurfiol a didwyll i'r athrawon a gymerodd ran yn ein gwaith ymchwil ac i'r holl ddisgyblion Blwyddyn 6 a anfonodd bosteri bendigedig atom. Heb gyfraniad athrawon a disgyblion, ni fyddai ein hymchwil yn bosibl. Diolchwn i chi am eich cefnogaeth barhaus a'ch amser.

## Prif ganfyddiadau 2024

- Mae Ffrangeg yn cael ei gynnig fel pwnc ym Mlwyddyn 7 mewn 70 y cant o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd. Mae hyn yn ostyngiad o bron i 10 y cant o'i gymharu â'r ffigwr a nodwyd yn adroddiad 2023. Fodd bynnag, mae Ffrangeg yn cadw ei lle fel yr Iaith Ryngwladol fwyaf poblogaidd ar gyfer TGAU a Safon Uwch;
- Nododd bron i 70 y cant o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd bod dim dysgwyr o gwbl neu lai na 10 y cant o ddysgwyr yn astudio Iaith Ryngwladol ym Mlwyddyn 10 ar gyfer TGAU neu gymhwyster Lefel 2 arall;
- Mae athrawon ysgolion uwchradd yn tynnu sylw at ddiffyg ariannu ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol yn ogystal ag angen i adolygu dull graddio llym arholiadau cyhoeddus;
- Mae pob un o'r colegau ôl-16 a ymatebodd yn defnyddio technoleg Deallusrwydd Artiffisial wrth ddysgu Ieithoedd Rhyngwladol.

1 Mae hyn yn cyfeirio at yr holl ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg a ddysgir mewn ysgol. Gall gynnwys ieithoedd cymuned, ieithoedd modern, ieithoedd clasurol a Iaith Arwyddion Prydain.

## Cyd-destun a chefndir polisi

Ers tro byd mae'r British Council wedi pwysleisio pwysigrwydd addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol o ran meithrin ffyniant economaidd a chysylltiadau byd-eang, gan nodi mai Sbaeneg, Mandarin, Ffrangeg, Arabeg ac Almaeneg yw'r ieithoedd pwysicaf i'w dysgu o ran ffyniant economaidd; a bod Eidaleg, Iseldireg, Portiwgaleg, Japaneg a Rwsieg hefyd yn cael eu gweld fel ieithoedd pwysig *(Languages for the Future, 2017).* Yn fwy diweddar mae Ayeres-Bennett (2023) wedi tanlinellu pwysigrwydd amlieithrwydd o ran cyfoethogi bywydau 'unigolion, cymunedau a gwledydd' (t.3). Eto, mae'r dirywiad yn y nifer o ddysgwyr ieithoedd mewn addysg uwch ac addysg bellach wedi arwain at alw am 'weithredu brys, unedig a chydgysylltiedig i fynd i'r afael â sefyllfa argyfyngus ieithoedd yn y Deyrnas Unedig' (The British Academy et al., *Towards a National Languages Strategy, 2020,* t.6).

Ers 2022, mae Cymru wedi gweld cyfnod o newid ym maes polisi addysg gyda chyflwyno'r Cwricwlwm Newydd i Gymru mewn ysgolion a gynhelir. Mae'r fframwaith newydd hwn yn darparu canllaw statudol i ysgolion sicrhau gwell darpariaeth i blant a phobl ifanc o ran y wybodaeth, sgiliau a'r profiadau sydd angen arnynt i ffynnu. Mae'r Cwricwlwm Newydd i Gymru yn amlinellu'r disgwyliadau cyffredin am sut y dylai ysgolion ddatblygu eu cwricwlwm, gan gynnwys ail-enwi 'Ieithoedd Modern Tramor' yn 'Ieithoedd Rhyngwladol' (Llywodraeth Cymru 2021). Mae Ieithoedd Rhyngwladol yn cynnwys ieithoedd y cartref ac ieithoedd cymunedol, Ieithoedd Modern, ieithoedd clasurol ac Iaith Arwyddion Prydain.

Mae cynllun 'Dyfodol Byd-eang'[2] yn un o'r mentrau lluosieithog a roddwyd ar waith gan y llywodraeth sy'n hyrwyddo cariad oes at ieithoedd, gan gynnwys Cymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol Eraill. Cafodd y cynllun hwn ei lansio gan Lywodraeth Cymru am y tro cyntaf yn 2015 yn dilyn diddymu CILT Cymru (Canolfan Genedlaethol Cymru ar gyfer Ieithoedd) a fu'n weithredol ers 2002. Un o elfennau allweddol cynllun Dyfodol Byd-eang yw'r prosiect Mentora Ieithoedd Tramor Modern (ITM), sydd hefyd wedi bod ar waith ers 2015 ac sy'n darparu cefnogaeth uniongyrchol o ansawdd uchel i ysgolion uwchradd ar gyfer addysgu a dysgu ieithoedd ac astudio Iaith Ryngwladol ar gyfer TGAU.[3]

## Amlinelliad o'r ymchwil

Cyn casglu'r data, cafwyd cymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Addysg a Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Queen's Belffast. Cydsyniodd yr holl gyfranogwyr, gan gynnwys y plant, yn wirfoddol a gwybodus i gymryd rhan. Cynhaliwyd yr ymchwil i'r safonau moesegol uchaf.

Y cwestiwn a ddefnyddiwyd i lywio'r ymchwil oedd 'Beth yw cyflwr presennol addysgu Ieithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16 yng Nghymru?'. I ateb y cwestiwn defnyddiwyd dulliau cymysg, gan adeiladu ar adroddiadau *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* blaenorol. Roedd y dulliau ymchwil yn cynnwys dau arolwg, un ar gyfer ysgolion uwchradd ac un ar gyfer colegau ôl-16, ac roeddynt ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Roedd yr arolygon yn cynnwys rhai cwestiynau caeedig i'w dadansoddi'n feintiol, a rhai cwestiynau agored ar gyfer sylwebaeth ansoddol. Am y tro cyntaf, rhoddwyd gwahoddiad i ddisgyblion cynradd Blwyddyn 6 i greu poster i gyfleu eu profiadau a'u teimladau am ddysgu Iaith Ryngwladol; mae pobl ifanc yn arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain ac mae'r set data a ddeilliodd o'r broses hon nid yn unig yn rhoi llais iddynt yn adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2024* ond hefyd yn cynnig cipolwg gwirioneddol ddiddorol ar eu dealltwriaeth gynnar o bwysigrwydd arddel persbectif byd-eang.

Cafodd cwestiynau'r arolwg a'r cynlluniau gwersi ar gyfer y gystadleuaeth i greu poster eu datblygu gan y tîm ymchwil ym misoedd cynnar 2024 cyn cael eu mireinio mewn ymgynghoriad â phanel o weithwyr proffesiynol yn y maes addysg yng Nghymru a gasglwyd ynghyd gan British Council Cymru. E-bostiwyd y gwahoddiad i gymryd rhan yn y gystadleuaeth creu poster i 1,210 o ysgolion cynradd. Cyfeiriwyd yr ebost at sylw Pennaeth yr ysgol.[4] Cafodd yr arolwg ei ebostio i 176 o ysgolion uwchradd a 12 o golegau ôl-16 ddechrau mis Mai. Cyfeiriwyd yr ebost at Bennaeth Ieithoedd Rhyngwladol. Hefyd, roedd dolenni i gymryd rhan yn yr arolwg ar gael ar sianeli cyfryngau cymdeithasol British Council Cymru.

2 Am fwy o wybodaeth am gynllun Dyfodol Byd-eang, gweler https://www.llyw.cymru/dyfodol-byd-eang-cynllun-i-wella-hyrwyddo-ieithoedd-rhyngwladol-yng-nghymru-2022-i-2025-html

3 Am fwy o wybodaeth am y cynllun, gweler Prosiect Mentora ITM.

4 Gan nad oes rhestr gyhoeddus a chyfredol o ysgolion cynradd a'u manylion cyswllt ar gael, ni lwyddwyd i gysylltu â phob ysgol gynradd yng Nghymru, ac nid oedd nifer o'r cyfeiriadau ebost yn cael eu defnyddio bellach.

Gwahoddwyd yr ysgolion i gyflwyno un ymateb yn unig i'r arolygon; lle derbyniwyd mwy nag un ymateb gan yr un sefydliad, cafodd yr ymateb cyntaf a dderbyniwyd gan y sefydliad hwnnw ei gynnwys yn y set data. O ran yr arolygon, cafodd yr ymatebion i'r cwestiynau caeedig eu dadansoddi gan ddefnyddio ystadegau disgrifiadol, tra cafodd yr ymatebion i'r cwestiynau agored eu dadansoddi drwy ddull dadansoddi thematig. O ran y posteri, gwnaed dadansoddiad o'r hyn a fynegwyd gan y disgyblion a'r ffordd y gwnaethant fynegi eu syniadau, teimladau a'u profiadau o ieithoedd ac o ddysgu ieithoedd.


Derbyniwyd ymatebion i'r arolwg gan 30 y cant o'r ysgolion uwchradd a gynhelir a 42 y cant o'r colegau ôl-16. Roedd hon yn gyfradd ymateb iach. 21 y cant oedd cyfradd ymateb gymharol *Language Trends England* gan ysgolion uwchradd a gynhelir yn 2024. Mae'r gyfradd ymateb i'r arolygon ar gyfer ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16 wedi gostwng eleni; ond roedd hynny i'w ddisgwyl gan y bu'n rhaid i ni ohirio'r broses o gasglu data yn ystod y cyfnod yn arwain at yr etholiad cyffredinol - o adeg cyhoeddi dyddiad yr etholiad cyffredinol ar 22 Mai 2024 drwy gyfnod ffurfio'r llywodraeth newydd etholedig yn wythnosau cyntaf mis Gorffennaf 2024. O ganlyniad, cafodd mwyafrif ein data ei gasglu yn ystod pythefnos olaf tymor yr haf 2024:

| | Sail | Nifer a ymatebodd | % Cyfradd Ymateb |
|---|---|---|---|
| Arolwg Ysgolion Uwchradd | 176 | 53 | 30% |
| Arolwg Colegau Ôl-16 | 12 | 5 | 42% |

Tabl 1: Cyfradd yr ymateb i'r arolygon gan ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16


## Ffigurau arholiadau cyhoeddus

Eleni dychwelodd y dulliau o raddio TGAU a Safon Uwch yn ôl i'r drefn a ddefnyddiwyd cyn y pandemig. Rhwng 2023 a 2024 gwelwyd cynnydd o 4.8 y cant yn nifer y cofrestriadau ar draws bob pwnc ar gyfer TGAU yng Nghymru, ac o'i gymharu â 2019 gwelwyd cynnydd o 5.5 y cant yn nifer y cofrestriadau yn 2024. Rhwng 2023 a 2024 bu cynnydd o 4.2 y cant yn nifer y bobl ifanc 16 oed yng Nghymru, felly mae cynnydd yn nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU i'w ddisgwyl. Er bod y rhifau crai yn parhau'n gymharol fach, mae'n braf nodi y bu cynnydd o 5.5 y cant yn nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU mewn Ffrangeg ers y llynedd, a chynnydd o 23 y cant mewn cofrestriadau ar gyfer TGAU mewn Almaeneg. Yng Nghymru, nid yw Sbaeneg yn dilyn yr un duedd ag a welir yn Lloegr neu Ogledd Iwerddon, lle mae'r ffigurau'n cynyddu'n barhaus. Erbyn hyn Sbaeneg yw'r Iaith Ryngwladol fwyaf poblogaidd ar gyfer TGAU yng Ngogledd Iwerddon, a disgwylir gweld yr un duedd yn Lloegr hefyd dros y ddwy flynedd nesaf. Yng Nghymru, mae Ffrangeg yn dal ei thir.





Ffigwr 1: Cofrestriadau ar gyfer TGAU mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg 2015 - 2024 (ffynhonnell - JCQ [Data arholiadau dros dro] 2015 - 2024)[5]

5 Noder - ar adeg llunio adroddiad blaenorol *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* yn 2023, ffigurau arholiad Cymwysterau Cymru oedd y rhai mwyaf diweddar oedd ar gael; eleni daw'r holl ddata ar gyfer 2015 i 2024 a welir yn Ffigurau 1 - 4 o ddata arholiadau dros dro JCQ *(Joint Council for Qualifications):* https://www.jcq.org.uk/examination-results/.





Ffigwr 2: Cofrestriadau ar gyfer TGAU mewn ieithoedd heblaw am Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg a Chymraeg 2015-2024 (ffynhonnell -JCQ [data arholiadau dros dro] 2015-2024)

Mae Ffigwr 2 yn dangos mwy o newyddion da gan ei bod yn amlwg fod cofrestriadau Ieithoedd Cartref, Ieithoedd Treftadaeth ac Ieithoedd Cymunedol ar gynnydd ac wedi tyfu'r tu hwnt i nifer y cofrestriadau a welwyd dros y ddeng mlynedd ddiwethaf. Mae Ffigwr 3 yn dangos darlun cymharol sefydlog ar gyfer Safon Uwch; fel yn achos TGAU Sbaeneg mae'r cofrestriadau braidd yn afreolaidd, ac nid yw'r twf cyson a nodir mewn rhannau eraill o'r DU yn cael ei weld yng Nghymru.




Ffigwr 3: Cofrestriadau ar gyfer Safon Uwch mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg 2015 – 2024 (ffynhonnell- JCQ [data arholiadau dros dro] 2015 - 2024)




Ffigwr 4: Cofrestriadau ar gyfer Safon Uwch mewn ieithoedd heblaw am Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg a Chymraeg 2015 – 2024 (ffynhonnell - JCQ [data arholiadau dros dro] 2015-2024)

# Canfyddiadau'r arolwg ysgolion uwchradd

## Proffil yr ysgolion uwchradd

Nododd cyfrifiad ysgolion 2024 bod 176 o ysgolion uwchradd yng Nghymru. Roedd 128 o'r rhain yn ysgolion Cyfrwng Saesneg, 8 yn ysgolion Cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg, 18 yn ysgolion Cyfrwng Cymraeg a 22 yn ysgolion dwyieithog Cymraeg/Saesneg. Ar ôl mireinio ein setiau data a neilltuo ymatebion a ddyblygwyd roedd gyda ni 53 o ymatebion gan ysgolion uwchradd y gellid eu defnyddio at ddibenion yr ymchwil - sef cyfradd ymateb o 30%.

Derbyniwyd ymatebion yn Gymraeg gan wyth o'r ysgolion uwchradd; ymatebodd y 45 ysgol uwchradd arall yn Saesneg. Mae Tabl 2 yn dangos dosbarthiad daearyddol yr ysgolion a ymatebodd. Mae tua hanner ohonynt wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru.

| Lleoliad Daearyddol | Yn cynnwys yr awdurdodau lleol | Sail | Nifer yr ysgolion a ymatebodd (n=53) |
|---|---|---|---|
| Gogledd Cymru | Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Wrecsam | 50 | 25 |
| De Orllewin a Chanolbarth Cymru | Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot | 48 | 11 |
| Canol De Cymru | Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerdydd | 48 | 11 |
| De Ddwyrain Cymru | Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd | 30 | 6 |

Tabl 2: Nifer yr ysgolion uwchradd a ymatebodd yn ôl eu dosbarthiad daearyddol

## Prydau Ysgol am Ddim

I ddarganfod os oes unrhyw wahaniaethau cymdeithasol-economaidd o ran addysgu a dysgu ieithoedd, edrychwyd ar y ganran o ddysgwyr ym mhob ysgol oedd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Gan ddefnyddio data o Gyfrifiad Ysgolion Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024, trefnwyd y nifer llawn o 178 o ysgolion uwchradd a wahoddwyd i ymateb i'r arolwg yn gwintilau yn ôl y ganran o ddysgwyr (hyd at 15 oed) oedd â hawl i gael Prydau Ysgol Am Ddim.

| Cwintilau | | Sail (cyfanswm ysgolion uwchradd = 176) | Nifer yr ysgolion uwchradd a ymatebodd (n = 53) | Canran |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 0.0-17.0% | 35 | 11 | 20.8% |
| 2 | 17.1-22.2% | 36 | 13 | 24.5% |
| 3 | 22.3-28.7% | 35 | 9 | 17.0% |
| 4 | 28.8-37.2% | 35 | 9 | 17.0% |
| 5 | 37.3% and above | 35 | 11 | 20.8% |

Tabl 3: Cwintilau 'Hawl i Gael Prydau am Ddim' ar gyfer ysgolion uwchradd gwladol yng Nghymru

Mae Tabl 3 yn dangos fod ychydig dros 45 y cant o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd yng nghwintilau 1 a 2 (h.y. yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl mesuriad y nifer o ddysgwyr sy'n cael gwarchodaeth drosianol sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim). Er bod gyda ni ddau yn rhagor o ymatebwyr yng nghwintil 5 eleni, mae'n bosib bod y diffyg cydbwysedd o ran ymatebwyr ar draws bob cwintil yn golygu bod yr adroddiad yn dangos darlun mwy ffafriol na gwir sefyllfa bresennol ysgolion uwchradd yng Nghymru.

## Addysgu a Dysgu Ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 3

Gofynnwyd i athrawon nodi pa Iaith neu Ieithoedd Rhyngwladol yr oedd dysgwyr yn eu hastudio yng Nghyfnod Allweddol 3 ym mlwyddyn ysgol 2023/24. Yn Nhabl 4 gwelir bod Ffrangeg yn cael ei gynnig ym Mlwyddyn 7 mewn 70 y cant o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd - gostyngiad o bron i 10 y cant ar y ffigwr a nodwyd yn 2023. Nodir bod cynnydd bach yn nifer yr ysgolion sy'n cynnig Sbaeneg i'r holl ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 3, ond nodir diffyg arwyddocad ystadegol hynny hefyd oherwydd maint y sampl. O ran ieithoedd eraill, nododd dwy ysgol eu bod yn addysgu Mandarin.

| | Ffrangeg | Almaeneg | Sbaeneg |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn 7 | 70% | 6% | 30% |
| Blwyddyn 8 | 74% | 4% | 32% |
| Blwyddyn 9 | 64% | 8% | 28% |

Tabl 4: Ieithoedd Rhyngwladol a astudir gan bob disgybl yng Nghyfnod Allweddol 3

Gofynnwyd i'r ymatebwyr os yw dysgwyr yn eu ysgolion yn dysgu mwy nag un Iaith Ryngwladol ym mlwyddyn ysgol 2023/24 - ac eithrio Cymraeg. Rhwng Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10, nododd mwyafrif yr ysgolion a ymatebodd nad oedd unrhyw ddysgwyr yn astudio mwy nag un iaith (Tabl 5). O Flwyddyn 7 i Flwyddyn 9, mae pob dysgwr yn astudio iaith ychwanegol mewn ychydig yn llai nag un o bob pump o'r ysgolion a ymatebodd; ond erbyn Blwyddyn 10 mae hynny'n disgyn i sero.

| | Pob dysgwr | Mwy na hanner | Rhywfaint o'r dysgwyr (5% - 49%) | Llai na 5% | Dim |
|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn 7 | 17% | 4% | 0% | 2% | 77% |
| Blwyddyn 8 | 19% | 4% | 2% | 2% | 74% |
| Blwyddyn 9 | 19% | 4% | 4% | 6% | 68% |
| Blwyddyn 10 | 0% | 0% | 8% | 19% | 74% |

Tabl 5: Y gyfran o ddysgwyr sy'n astudio mwy nag un Iaith Ryngwladol (ac eithrio Cymraeg) rhwng Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10

## Yr amser a roddir i ieithoedd

Gofynnwyd i'r ysgolion nodi cyfanswm yr amser dosbarth bob wythnos, ar gyfartaledd, a glustnodir ar gyfer addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol. Mae saith deg saith y cant o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd yn clustnodi awr neu ddwy o amser dosbarth ar gyfer ieithoedd ym Mlwyddyn 7. Erbyn Blwyddyn 9, mae'r ffigwr yma'n gostwng i 62.3 y cant o'r ysgolion. Nodir cynnydd bach yn y nifer o ysgolion sy'n clustnodi llai nag awr ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol ym Mlwyddyn 8 (9.4 y cant yn 2024, o'i gymharu â 4 y cant yn 2023); ym Mlwyddyn 9 (11.3 y cant yn 2024, o'i gymharu â 1.5 y cant yn 2023); ac ym Mlwyddyn 10 (5.7 y cant yn 2024, o'i gymharu â 0 y cant yn 2023). Ond, dylid cofio bod llai o ysgolion wedi ymateb yn 2024 ac y gall hynny ogwyddo'r data. Ychydig yn llai na dwy ran o dair o'r ysgolion a ymatebodd sy'n clustnodi dwy neu dair awr o amser dosbarth i ieithoedd ym Mlwyddyn 10, sy'n debyg i'r data a nodwyd yn adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2023.*

| | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 8 | Blwyddyn 9 | Blwyddyn 10 |
|---|---|---|---|---|
| **Llai nag awr** | 6% | 9% | 11% | 6% |
| **1-2 awr** | 77% | 70% | 62% | 15% |
| **2-3 awr** | 15% | 17% | 23% | 58% |
| **3-4 awr** | 2% | 4% | 4% | 8% |
| **Mwy na 4 awr** | 2% | 2% | 2% | 17% |

Tabl 6: Yr amser dosbarth ar gyfartaledd a glustnodir ar gyfer addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 3 ac ym Mlwyddyn 10

## Addysgu a Dysgu Ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 4

Yn 2024, nododd 36 o'r 53 o ysgolion uwchradd a ymatebodd (hy 67.9 y cant) bod dim, neu lai na 10 y cant o'u dysgwyr ym Mlwyddyn 10 yn astudio Iaith Ryngwladol ar gyfer TGAU neu gymhwyster Lefel 2 arall. O'r 53 o ysgolion uwchradd a ymatebodd, dim ond un ysgol (saith yn llai nag yn 2023) a nododd fod 30 y cant o'r cohort yn astudio Iaith Ryngwladol (Tabl 7).

| | 0% | 10% | 20% | 30% | 40% | 50% | 60% | 70% | 80% | 90% | 100% |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2022** | 14 | 30 | 14 | 5 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **2023** | 20 | 25 | 12 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **2024** | 19 | 17 | 15 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Tabl 7: Y gyfran o ddysgwyr ym Mlwyddyn 10 sy'n dysgu Iaith Ryngwladol ar gyfer TGAU neu gymhwyster Lefel 2 arall (e.e. Cyfathrebu Busnes Byd-eang - Lefel 2). Nodwyd ar sail rhifau crai (cyfanswm 2022 n=64, cyfanswm 2023 n=67, cyfanswm 2024 n=53)

Nododd pob un o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd eu bod yn cynnig cymwysterau TGAU; roedd 6 y cant (n=3) o'r ysgolion a ymatebodd hefyd yn cynnig achrediadau Lefel 2 Cyfathrebu Busnes Byd-eang - Ieithoedd Rhyngwladol.

Fel gyda fersiynau blaenorol o ymchwil *Tueddiadau Ieithoedd Cymru,* gofynnwyd i'r ymatebwyr sôn am bolisïau eu hysgolion o ran dysgu Ieithoedd Rhyngwladol; caniatawyd iddynt roi mwy nag un ymateb, a nododd yr ysgolion a ymatebodd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Ni chynhelir gwersi os nad oes digon o ddysgwyr | 75% |
| Mae cyfyngiadau amserlennu'n golygu nad yw pob dysgwr yn gallu dewis astudio Iaith Ryngwladol | 51% |
| Anogir dysgwyr â chyrhaeddiad is na'r cyfartaledd i beidio dewis Iaith Ryngwladol | 23% |
| Arall (noder os gwelwch yn dda) | 15% |
| Mae'n bosib bod Uwch Dîm Rheoli'r ysgol yn cynghori rhai dysgwyr i beidio astudio Iaith Ryngwladol | 13% |
| Mae'r ysgol yn argymell yn gryf y dylai'r dysgwyr mwyaf abl yn academaidd astudio Iaith Ryngwladol | 9% |
| Mae'r ysgol yn argymell yn gryf y dylai pob dysgwr astudio Iaith Ryngwladol | 2% |
| RHAID i bob dysgwr astudio Iaith Ryngwladol | 0% |

Tabl 8: Canfyddiad athrawon a ymatebodd i'r arolwg o bolisïau eu hysgolion o ran addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 (caniatawyd rhoi mwy nag un ateb)

Yn achos y mwyafrif o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd, ni chynhelir gwersi os nad oes digon o ddysgwyr. Yn wir, nododd 11 o'r ysgolion a ymatebodd bod angen o leiaf 10 o ddysgwyr cyn y gellid cynnal dosbarth TGAU mewn Iaith Ryngwladol. Nododd 11 o ysgolion eraill bod angen isafswm o rhwng 12 a 15 o ddysgwyr cyn y gellid cynnal dosbarth. Yn debyg i ffigurau'r llynedd, nododd 51 y cant o'r ymatebwyr bod ystyriaethau amserlennu, o bosib, yn atal dysgwyr rhag dewis astudio Iaith Ryngwladol. Nododd 15 y cant o'r ymatebwyr 'Arall' ar gyfer y cwestiwn hwn gan nodi polisïau ysgol amgen ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 - gan gynnwys i) Caniatáu i ddysgwyr benderfynu drostynt eu hunain heb unrhyw ymyraeth a ii) annog dysgwyr yn gadarnhaol i astudio pynciau y maent yn eu mwynhau neu eu hangen.


Gofynnwyd i'r athrawon a ymatebodd ystyried pa newid a welsant (os o gwbl) yn y gyfran o ddysgwyr a oedd yn astudio Iaith Ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 dros y tair blynedd diwethaf. Yn Nhabl 9, gwelir bod 13 y cant o'r ymatebwyr yn credu bod mwy o ddysgwyr yn astudio Iaith Ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 bellach (o'i gymharu â 7% yn 2023). Nododd ymatebwyr tua dwy ysgol o bob pump bod llai o ddysgwyr yn dewis Iaith Ryngwladol nawr - sy'n ganfyddiad cadarnhaol o'i gymharu â'r ffigwr a nodwyd yn 2023 (49 y cant). Nid oedd tuedd glir i'w gweld mewn 28 y cant o'r ysgolion a ymatebodd gan fod nifer y dysgwyr yn codi a gostwng o flwyddyn i flwyddyn.

| | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|
| Mae Ieithoedd Rhyngwladol yn orfodol i bob dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 4 | 0% | 0% | 0% |
| Mae mwy o ddysgwyr yn dewis Iaith Ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 nawr | 10% | 7% | 13% |
| Mae llai o ddysgwyr yn dewis Iaith Ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 nawr | 55% | 49% | 38% |
| Mae'r nifer yn debyg i flynyddoedd blaenorol | 16% | 15% | 21% |
| Dim patrwm clir: mae'r nifer yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn | 17% | 27% | 28% |
| Arall (noder os gwelwch yn dda) | 2% | 2% | 0% |

Tabl 9: Canfyddiadau athrawon am y nifer o ddysgwyr sydd wedi dewis astudio TGAU mewn Iaith Ryngwladol dros y tair blynedd diwethaf

## Y nifer sy'n dewis TGAU mewn Ieithoedd Rhyngwladol

Gofynnwyd i'r athrawon a ymatebodd i nodi pa Ieithoedd Rhyngwladol yr oedd dysgwyr yn eu hastudio ar gyfer TGAU ym mlwyddyn ysgol 2023/24 (Ffigwr 5)




Ffigwr 5: Y ganran o Ieithoedd Rhyngwladol sy'n cael eu hastudio ar gyfer TGAU yn yr ysgolion a ymatebodd

O bell ffordd, Ffrangeg yw'r iaith y mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ei hastudio ar gyfer TGAU - dyna nododd 77 y cant o'r ysgolion a ymatebodd. Mae Sbaeneg yn cael ei hastudio mewn bron i hanner yr ysgolion a ymatebodd. Mae'r nifer sy'n dysgu Almaeneg yn parhau'n isel ar 13 y cant. Yn y categori 'Arall', nododd un athro/athrawes nad oedd unrhyw Ieithoedd Rhyngwladol yn cael eu hastudio ar gyfer TGAU; nododd un arall bod dysgwyr SIY yn astudio iaith eu cartref neu iaith dreftadaeth ar gyfer TGAU.

Gofynnwyd i athrawon ystyried beth maen nhw'n ei deimlo yw'r prif rwystrau o ran annog pobl ifanc i ddewis Iaith Ryngwladol ar gyfer TGAU (rhestrir y dewisiadau yn Nhabl 10). Nododd chwarter o'r athrawon a ymatebodd mai'r brif her yw'r syniad o Saesneg Byd-eang - y canfyddiad mai Saesneg yw iaith y byd (25 y cant). Yn ail agos i hyn oedd natur a chyd-destun arholiadau allanol (21 y cant). Her allweddol arall a nodwyd gan yr athrawon a ymatebodd oedd diffyg hyrwyddo ieithoedd drwy'r ysgol gyfan fel opsiwn ar gyfer gyrfaoedd (13 y cant).

| **Heriau arwyddocaol i ddewis Ieithoedd Rhyngwladol** | **Y ganran o ysgolion sy'n ystyried mai'r her yma yw'r prif rwystr** |
|---|---|
| Saesneg Byd-eang (h.y. pwysigrwydd y canfyddiad mai Saesneg yw iaith y byd) | 25% |
| Natur a chyd-destun arholiadau allanol | 21% |
| Nid yw ieithoedd yn cael eu hyrwyddo drwy'r ysgol gyfan fel opsiwn ar gyfer gyrfa | 13% |
| Diffyg amser cwricwlwm | 11% |
| Amserlennu Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 | 8% |
| Ieithoedd yn flaenoriaeth isel i'r uwch dîm rheoli | 6% |
| Amserlennu Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 3 | 6% |
| Y ffordd y mae arholiadau allanol yn cael eu marcio a'u graddio | 4% |
| Diffyg cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer yr iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth | 4% |
| Effaith pandemig Covid-19 | 2% |
| Goblygiadau penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd (Brexit) | 0% |
| Diffyg cyfleoedd i staff dysgu fanteisio ar Ddysgu Proffesiynol | 0% |

Tabl 10: Y ganran o ysgolion sy'n nodi mai'r rhesymau a nodir uchod yw'r brif her i ddysgwyr o ran dewis astudio Iaith Ryngwladol ar gyfer TGAU

Gofynnwyd i'r athrawon a ymatebodd sôn am unrhyw rwystrau eraill a wynebir ganddynt wrth geisio darparu amgylchedd addysgu a dysgu effeithiol yn eu hysgolion. Ymysg yr elfennau cyffredin a nodwyd gan athrawon yn hyn o beth oedd diffyg o ran y dewisiadau opsiwn ar gyfer TGAU ac amharodrwydd dysgwyr i astudio iaith ychwanegol. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae rhieni'n ffocysu ar Saesneg a Mathemateg fel blaenoriaeth."*

> *"Er eu bod yn wybodus, mae dysgwyr yn dweud na fydd ieithoedd yn ddefnyddiol ar gyfer eu dyfodol. Maen nhw'n ffeindio dysgu iaith yn rhy anodd, neu dydyn nhw ddim yn ei fwynhau. Mae rhai'n dweud bod gwrthdaro o ran eu dewisiadau opsiwn, neu y byddent yn ei ddewis petai ganddynt 4 opsiwn yn hytrach na 3."*

> *"Prin iawn yw'r cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer iaith y tu allan i'r dosbarth; dydyn nhw ddim yn credu ei fod yn ddefnyddiol yn y byd 'go iawn."*

Mae'r Cwricwlwm Newydd i Gymru'n pennu bod dysgu ac addysgu Cymraeg yn ofyniad mandadol i ddysgwyr hyd at 16 oed. Yn ogystal â hyn, anogir dysgwyr i ddatblygu sgiliau iaith lluosieithog drwy astudio Iaith Ryngwladol (CiG, 2024). Mae rhai athrawon yn tynnu sylw at y canfyddiad fod dysgu iaith yn anodd, ac efallai nad yw dysgu iaith arall yn apelio i berson ifanc â nifer cyfyngedig o opsiynau o ran eu dewis o bynciau TGAU:

> *"Nid yw llawer o ddysgwyr a rhieni yn gweld gwerth siarad Iaith Ryngwladol. Mae dysgwyr yn gorfod dysgu Cymraeg ar gyfer TGAU ac yn aml nid ydynt am ddefnyddio un o'u dewisiadau opsiwn ar gyfer astudio iaith arall."*

## Dysgu Ieithoedd Fel Gweithgaredd Allgyrsiol

Gofynnodd yr arolwg i athrawon os oedd eu dysgwyr yn dysgu unrhyw ieithoedd a restrir yn Nhabl 11 fel pynciau allgyrsiol neu bynciau cyfoethogi. Ym mwyafrif yr ysgolion a ymatebodd ni nodir unrhyw enghraifft o ddysgu iaith yn allgwricwlaidd gan ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4 nag ymysg dysgwyr ôl-16 - yn gymesur â chanfyddiadau *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2023*. Nodwyd enghreifftiau o ddysgu Mandarin yng Nghyfnod Allweddol 3 gan bron i un o bob pump o'r ysgolion a ymatebodd; mae'n bosib fod hyn yn ganlyniad i ymwneud yr ysgol â'r Confucius Institute. Yn y categori 'Arall' roedd peth tystiolaeth bod amrywiaeth ehangach o Ieithoedd Rhyngwladol yn cael eu cynnig eleni gan gynnwys, Eidaleg, Coreeg, Japaneg ac Wcraneg.

| | KS3 | CA4 | Ôl-16 |
|---|---|---|---|
| **Arabeg** | 4% | 6% | 4% |
| **Ffrangeg** | 2% | 4% | 2% |
| **Almaeneg** | 6% | 4% | 0% |
| **Mandarin** | 19% | 6% | 4% |
| **Pwyleg** | 4% | 13% | 2% |
| **Sbaeneg** | 0% | 6% | 2% |
| **Dim** | 68% | 75% | 87% |
| **Arall** | 8% | 6% | 2% |


Tabl 11: Y ganran o ysgolion lle astudir yr Ieithoedd Rhyngwladol a nodir uchod fel pynciau allgwricwlaidd neu bynciau cyfoethogi yng Nghyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4, neu Ôl-16 (caniatawyd rhoi mwy nag un ateb)

## Ieithoedd Cartref, Ieithoedd Treftadaeth ac Ieithoedd Cymunedol

Yn ôl StatsCymru, roedd cyfanswm o 6,101 o ddysgwyr mewn addysg uwchradd yng Nghymru a oedd yn siarad Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY).[6] Yn y system addysg yng Nghymru, mae SIY yn cwmpasu tri chategori o ddysgwr: a) Newydd i Saesneg; b) Caffael Cynnar; c) Yn Datblygu Cymhwysedd. Fel canran, nodwyd mai yng Nghasnewydd yr oedd yn nifer fwyaf o ddysgwyr SIY (13 y cant), gyda Chaerdydd yn ail (7 y cant).

Mae ymchwil diweddar wedi amlygu pwysigrwydd gwerthfawrogi sgiliau'r iaith a siaredir yng nghartref y dysgwr o ran cyfrannu i wead economaidd, cymdeithasol ac amlddiwylliannol cymdeithas ac fel cyfrwng i ddatblygu a chyfoethogi bywydau dysgwyr unigol drwy gefnogi eu siwrneiau addysg *(Humphries, Carruthers and Henderson, 2024)*. Yn ein set data, gwelwyd bod y mwyafrif (75 y cant) o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd yn rhoi cefnogaeth i'w dysgwyr sefyll arholiadau yn yr ieithoedd y maent yn siarad yn eu cartrefi neu gymunedau yn ychwanegol i'r ieithoedd a ddysgir yn yr ysgol. Mae hyn yn amlygu'r dull lluosieithog sydd wedi'i fabwysiadu gan ysgolion yng Nghymru sy'n sicrhau cyfleoedd i ddysgwyr ymgymryd ag arholiadau ac ennill cymwysterau ar gyfer eu holl sgiliau iaith.

6 Gweler StatsCymru am fwy o ddata: Data cryno Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn ôl awdurdod lleol (disgyblion rhwng 5 a 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd)




Ffigwr 6: Y ganran o ysgolion a ymatebodd sy'n cynnig cyfle i'w dysgwyr sefyll arholiadau yn iaith eu cartrefi neu gymunedau (na ddysgir yn eu hysgol)

## Dimensiwn Rhyngwladol

Mae amryw o gyfleoedd ar gael i ysgolion yng Nghymru i fanteisio ar gysylltiadau rhyngwladol gyda sefydliadau ac unigolion i hybu a chryfhau'r broses o ddysgu ieithoedd (gweler Tabl 12). Mae'r ffigurau ar gyfer ysgolion sy'n manteisio ar gynllun Mentora Myfyrwyr ITM yn enwedig yn parhau'n uchel ymysg yr ysgolion uwchradd yng Nghymru a ymatebodd, gyda 72 y cant ohonynt yn dal i gymryd rhan yn y cynllun mentora llwyddiannus hwn ym mlwyddyn ysgol 2023/24. Mae cynllun Mentora Myfyrwyr ITM yn annog a hybu dysgu ieithoedd ar gyfer TGAU a thu hwnt drwy raglen o sesiynau ac adnoddau mentora wyneb yn wyneb yn y dosbarth ac arlein sydd i gyd ar gael am ddim i bobl ifanc yng Nghymru.[7] Mae'r data yn Nhabl 12 hefyd yn dangos cynnydd bach yn nifer yr ysgolion sydd â sefydliad partner dramor. Yn y categori 'Arall' nododd rhai athrawon eu bod yn mynd â dysgwyr ar dripiau ysgol rhyngwladol.

Ond, gwelwyd gostyngiad yn nifer yr ysgolion sy'n cyflogi Cynorthwyydd Iaith (cyflogwyd Cynorthwyydd Iaith mewn 4 y cant o'r ysgolion a ymatebodd yn 2024, o'i gymharu â 9 y cant yn 2023). Fel y gwelwyd mewn adroddiadau *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* blaenorol, mae ein data'n dangos mai Cynorthwywyr Iaith sy'n siarad Mandarin a gyflogir yn y nifer fach o ysgolion sydd ag unrhyw gynorthwywyr o gwbl. Er bod tystiolaeth eglur o effaith gadarnhaol a gweddnewidiol Cynorthwywyr Iaith ar addysgu ieithoedd, canlyniadau arholiadau a deilliannau dysgu *(British Council, 2023)*, mae diffyg ariannu yn aml yn golygu nad yw ysgolion yn gallu cyflogi siaradwyr Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Mandarin neu Sbaeneg *(Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2023)* i helpu eu dysgwyr. Hefyd, ym mlwyddyn ysgol 2023/24 gwelwyd llai o fanteisio ar gyfleoedd rhyngwladol y British Council, sefydliadau diwylliannol a rhaglen Llwybrau at Ieithoedd Cymru (gweler Tabl 12). Mae'r dirywiad yma mewn ymgysylltu rhyngwladol a nodwyd gan yr ysgolion uwchradd a ymatebodd yn tanlinellu'r angen i sicrhau bod cyfleoedd rhyngwladol o fewn cyrraedd y rhelyw ac yn dra effeithiol hefyd, ac yn gyfleoedd y gellir manteisio arnynt heb fod angen gormod o waith paratoi gan athrawon.

| | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|
| **Mae gan ein sefydliad un neu ragor o sefydliadau partner dramor** | 17% | 18% | 21% |
| **Cyfleoedd rhyngwladol y British Council** | 6% | 15% | 6% |
| **Rydym yn cyflogi Cynorthwywyr Iaith** | 8% | 9% | 4% |
| **Rydym yn manteisio ar gyfleoedd a gynigir gan sefydliadau diwylliannol (ee Confucius Institute, Goethe-Institut, Institut Français, Consejería de Educación)** | 38% | 31% | 21% |
| **Rydym yn cymryd rhan yng Nghynllun Mentora Myfyrwyr ITM** | 56% | 72% | 72% |
| **Rydym yn manteisio ar gyfleoedd a gynigir gan Lwybrau at Ieithoedd Cymru** | 78% | 66% | 58% |
| **Arall (noder os gwelwch yn dda)** | Ddim yn berthnasol | 19% | 19% |

Tabl 12: Ymgysylltiad rhyngwladol ysgolion uwchradd yng Nghymru (caniateir rhoi mwy nag un ateb)

7 Am fwy o wybodaeth, gweler Cynllun Mentora ITM

## Ieithoedd Rhyngwladol a'r Cwricwlwm Newydd i Gymru

Gyda chyflwyno'r Cwricwlwm Newydd yng Nghymru, mae'n gyfnod o drawsnewid i'r ysgolion ac nid ydynt wedi gweld deillianau diriaethol eto o ran y modd y bydd y Cwricwlwm Newydd yn gwella sefyllfa Ieithoedd Rhyngwladol.

Gofynnwyd i'r athrawon sôn am yr hyn sy'n gweithio'n dda ym maes addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol, yn ogystal â'r hyn y gellid ei wneud i wella sefyllfa addysgu a dysgu ieithoedd. Nodwyd y sylwadau canlynol am y Cwricwlwm Newydd i Gymru mewn perthynas ag addysg ieithoedd:

> *"Gobeithir y bydd y newid mewn dulliau addysgu, gan ddefnyddio syniadau Conti, yn ogystal â'r newidiadau sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm Newydd (gyda mwy o ddiwylliant a rhywfaint o lenyddiaeth) yn dwyn ffrwyth. Ond gan mai 3 awr yn unig bob pythefnos sydd wedi'i amserlennu ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol, ni fydd hynny'n ddigon i feithrin hyder y dysgwyr o ran dysgu."*


> *"Mae'r Cwricwlwm Newydd yn galluogi rhannu llawer mwy o wybodaeth ddiwylliannol."*

> *"Mae cynnwys y TGAU newydd i'w weld yn fwy perthnasol i'r dysgwyr - teithio a gwaith er enghraifft."*

> *"Mae'r diffyg eglurder o ran y TGAU newydd mewn Ieithoedd Rhyngwladol yn sgil cyflwyno'r Cwricwlwm Newydd i Gymru yn broblem. Ni allwn ddweud wrth y dysgwyr beth i'w ddisgwyl o ran sut y byddant yn cael eu hasesu. Ni fydd dysgwyr sy'n pryderi am hyn yn dewis Ieithoedd Rhyngwladol heb ddealltwriaeth glir o'r hyn sydd ei angen."*[8]

Gofynnwyd i'r athrawon sôn am faint o gydweithio sydd rhwng eu hadran ieithoedd â'r Maes Dysgu a Phrofiad wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm Newydd. Nododd ychydig yn llai na 10 y cant o'r ymatebwyr nad oedden nhw (na'u hadran Ieithoedd Rhyngwladol) wedi cydweithio gyda'u Maes Dysgu a Phrofiad fel rhan o'r broses o baratoi ar gyfer y Cwricwlwm (Ffigwr 7). Roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr naill ai wedi gwneud rhai newidiadau o ran paratoi ar gyfer y Cwricwlwm Newydd (53 y cant) eisoes, neu â chynlluniau y bwriedir eu rhoi ar waith yn ddiweddarach (15 y cant)."


8 Ers casglu'r data, mae manylebau newydd CBAC ar gyfer pynciau TGAU wedi cael eu cyhoeddi: Amlinelliadau o'r cymwysterau a chrynodebau o'r ymgynghoriadau




Ffigwr 7: Ymateb athrawon i'r cwestiwn 'I ba raddau y mae eich adran Ieithoedd Rhyngwladol wedi bod yn cydweithio o fewn i'ch Maes Dysgu a Phrofiad a thrwy'r ysgol gyfan wrth baratoi i roi'r Cwricwlwm Newydd i Gymru ar waith?'

## Dealltwriaeth Artiffisial a Thechnoleg yn y Dosbarth Iaith

Yn ddiweddar, gwelwyd defnydd cynyddol o Ddeallusrwydd Artiffisial (DA) a thechnoleg addysgol sy'n cael ei yrru gan Ddeallusrwydd Artiffisial mewn dosbarthiadau iaith a'r tu allan iddynt - gan gynnwys apiau fel ChatGPT, Mizou, Gliglish, Diffet, Wisdolia a Magic Padlet. Am y tro cyntaf, holodd arolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* yr athrawon am eu defnydd o dechnoleg o'r fath wrth addysgu ieithoedd. Nid oedd mwyafrif yr athrawon a ymatebodd (75 y cant) yn defnyddio technoleg DA wrth addysgu ieithoedd, ac oedd chwarter o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn ei ddefnyddio'n achlysurol.




Ffigwr 8: Defnydd ysgolion uwchradd o dechnoleg DA wrth addysgu a dysgu ieithoedd

Yn ogystal, gofynnwyd cwestiwn agored i'r athrawon (gyda lle i ymhelaethu ar eu hatebion) - 'I ba raddau mae dysgwyr yn cael defnyddio technoleg DA i gefnogi eu dysgu?' Nododd llawer o athrawon nad yw'r dysgwyr yn cael defnyddio DA, nad oedd dysgwyr yn gallu cael ato ar ddyfeisiau'r ysgol, neu, mewn sawl achos, nad oes digon o ddyfeisiau addas ganddynt yn yr ysgol i alluogi defnyddio adnoddau technoleg DA gyda'r dysgwyr. Ymysg y sylwadau a dderbyniwyd roedd yr isod:

> *"Na. Dw i ddim yn teimlo y byddai o fudd i'r dysgwyr gan mai dim ond cyfieithiad y byddai'n ei roi iddynt yn hytrach nag esboniad neu broses y gallent ei defnyddio wrth ddysgu yn y dyfodol."*

> *"Dydyn ni ddim yn defnyddio technoleg DA eto. Y rheswm am hynny yw diffyg hyfforddiant (staff) a phrinder dyfeisiau (diffyg mynediad at ddyfeisiau)."*

Nododd athrawon eraill y byddent yn edrych ar ddefnydd posib o dechnoleg DA yn y dyfodol, tra nododd un o'r athrawon sut mae'r dysgwyr yn defnyddio'r dechnoleg:

*"Ydyn, rydyn ni'n eu hannog i ddefnyddio ChatGPT i gywiro eu gwaith ac yn argymell defnyddio apiau at ddiben dysgu iaith yn benodol fel Tutor Lily."*

## Y Ddarpariaeth Ôl-16 ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol

Nid oedd darpariaeth ôl-16 ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol mewn bron i hanner yr ysgolion uwchradd (n=25) a ymatebodd i'r arolwg . Yn yr ysgolion hynny lle'r oedd darpariaeth ôl-16 ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol (n=28), nododd tua 60 y cant bod ganddynt bump neu lai o ddysgwyr ym Mlwyddyn 12 ac ym Mlwyddyn 13. Fel y nodwyd mewn adroddiadau *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* blaenorol, mae nifer fach o ddarpar ddysgwyr yn aml yn golygu na chaiff dosbarth ei gynnal o gwbl; mae hynny'n wir yn achos bron i hanner yr ysgolion a ymatebodd a oedd yn cynnig darpariaeth ôl-16 yn 2024 (gweler Tabl 13). Yn y categori 'Arall', nodwyd y trefniadau canlynol ar gyfer sefyllfa pan mai nifer fach yn unig o ddysgwyr sydd am astudio Iaith Ryngwladol: i) maent wedi ceisio cydweithio gydag ysgolion eraill yn y gorffennol, ond mae cyfyngiadau amserlennu wedi rhwystro hynny; ii) cynhelir y dosbarthiadau ar ôl ysgol; a iii) mae'n dibynnu ar y nifer, a byddant yn cynnal dosbarth Ffrangeg yn y dyfodol gyda phedwar o ddysgwyr.

| | |
|---|---|
| Addysgir dosbarthiadau AS ac A2 gyda'i gilydd | 7% |
| Ni chaiff dosbarthiadau eu cynnal | 46% |
| Cynhelir dosbarthiadau gyda llai o oriau wedi'u hamserlennu | 36% |
| Rhennir trefniadau addysgu gydag ysgol arall | 18% |
| Arall (rhowch fanylion os gwelwch yn dda) | 18% |

Tabl 13: Ymatebion i'r cwestiwn 'Pa drefniadau sydd gan eich ysgol (os o gwbl) pan mai nifer fach yn unig o ddysgwyr ôl-16 sydd am astudio Iaith Ryngwladol?' (caniateir rhoi mwy nag un ateb)

Gofynnodd yr arolwg i athrawon ystyried y tair blynedd diwethaf a rhoi sylwadau ar y newidiadau (os o gwbl) a welwyd o ran y nifer o ddysgwyr ôl-16 sy'n dewis astudio Ieithoedd Rhyngwladol yn eu hysgolion a'r ddarpariaeth ar gyfer hynny. Ymatebodd 26 o ysgolion i'r cwestiwn hwn a chyflwynir eu hymatebion fel ffigurau crai yn Nhabl 14. Nid oedd gan unrhyw ysgol ddarpariaeth ôl-16 mewn Iaith Ryngwladol heblaw am Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg.

| | Ffrangeg | Almaeneg | Sbaeneg | Arall |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflwynwyd fel pwnc Safon Uwch newydd** | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **Cynnydd yn y nifer sy'n dewis astudio iaith** | 2 | 0 | 3 | 0 |
| **Y nifer sy'n dewis astudio iaith yn sefydlog** | 6 | 2 | 5 | 0 |
| **Gostyngiad yn y nifer sy'n dewis astudio** | 9 | 1 | 5 | 0 |
| **Ni chynigir y pwnc bellach** | 3 | 2 | 1 | 0 |
| **Ni chaiff ei addysgu yn fy sefydliad** | 5 | 15 | 11 | 18 |

Tabl 14: Canfyddiadau athrawon o'r newidiadau a welwyd (os o gwbl) dros y tair blynedd diwethaf o ran nifer y dysgwyr ôl-16 sy'n dewis astudio Ieithoedd Rhyngwladol yn eu hysgolion a'r ddarpariaeth ar gyfer hynny

## Pryderon Athrawon am Ddyfodol Ieithoedd Ôl-16

Yn ôl ymchwil diweddar gan yr Academi Brydeinig (2024) mae'r dewis o bynciau sydd ar gael i ddysgwyr ôl-16 wedi lleihau. O ganlyniad gwelir bod 'llai o ddysgwyr yn astudio pynciau'r dyniaethau fel Saesneg a Hanes' oherwydd y cyfyngu ar ystod y pynciau sydd ar gael a'r pynciau sy'n cael eu ffafrio gan ddysgwyr. Mynegwyd pryderon difrifol gan athrawon a ymatebodd i'n harolwg am ddyfodol ieithoedd yn eu hysgolion oherwydd y dirywiad yn nifer y dysgwyr, arholiadau anodd a graddio llym, canfyddiadau rhieni ac uwch dimau rheoli am ieithoedd a diffyg ariannu. Isod, ceir rhai o'r sylwadau a wnaed gan ymatebwyr wrth ystyried y newid a welwyd yn y nifer o ddysgwyr sy'n dewis ieithoedd a/neu'r ddarpariaeth ar eu cyfer:


> *"Rydyn ni'n poeni'n fawr am ddyfodol ieithoedd, nawr yn fwy nag erioed. Waeth faint rydyn ni'n ceisio hyrwyddo pwysigrwydd ieithoedd a'u perthnasedd i fyd gwaith, rydyn ni'n teimlo nad oes fawr ddim yn newid. Byddai cael cefnogaeth reolaidd o'r tu allan yn ddefnyddiol gyda siaradwyr gwadd yn dod i mewn i sôn am ba swyddi y gallant eu gwneud ayb. Ond mae hynny'n costio arian, ac mae cyllidebau wedi cael eu torri."*

> *"Mae'r nifer sy'n astudio ar gyfer TGAU wedi lleihau, ac mae natur heriol TGAU yn atal dysgwyr sy'n ystyried astudio iaith ar gyfer Safon Uwch rhag gwneud hynny. Ni allaf ddeall pam fod papurau gwrando a darllen TGAU mor anodd tra bod ffiniau'r graddau mor isel - mae hyn mor dorcalonus ac yn stopio nifer o ddysgwyr rhag parhau i Safon Uwch. Does bosib mai canfod beth mae dysgwyr TGAU yn ei wybod yw'r nod yn hytrach na'r hyn nad ydynt yn ei wybod. Er enghraifft, prawf gwrando haen uwch Ffrangeg yn 2023: 13/45 i ennill gradd C, 26/45 i ennill gradd A*; prawf gwrando haen uwch TGAU Almaeneg 12/45 C, prawf darllen haen uwch Ffrangeg 16/60 C, Almaeneg 17/60 C."*

> *"Mae llai a llai o ddysgwyr yn dewis AS Ffrangeg yn fy ysgol, felly nid yw'r cwrs yn rhedeg hyd nes y gallwn recriwtio cohort mwy. Ni fydd AS Sbaeneg yn rhedeg y flwyddyn nesaf chwaith gan nad oes ymgeiswyr gennym."*

## Recriwtio Athrawon Iaith

Am y tro cyntaf erioed, eleni gofynnodd *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* i'r holl athrawon ysgolion uwchradd a ymatebodd os oedd recriwtio athrawon iaith cymwysedig yn fater trafod yn eu hadran. Mewn dwy ysgol uwchradd a gynhelir o bob pump yng Nghymru, nid oedd recriwtio athrawon iaith yn fater trafod; fodd bynnag, mae tua thraen o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd yn nodi ei fod naill ai'n fater o bwys (23 y cant) neu'n fater bach (8 y cant). Yn y sylwadau yn y categori 'Arall' nododd ymatebwyr i) nad oes angen iddynt recriwtio athrawon am fod nifer y dysgwyr sy'n dewis ieithoedd yn isel; ii) cafodd yr oriau addysgu eu lleihau ac mae'r ddarpariaeth addysgu ieithoedd yn cael ei chynnal gan un athro/athrawes; a iii) ni hysbysebwyd unrhyw swyddi iaith ers pymtheg mlynedd, ond gall ffeindio athrawon cyflenwi arbenigol ar gyfer ieithoedd fod yn anodd.




Ffigwr 9: Ymateb i'r cwestiwn 'Ydy recriwtio athrawon iaith cymwysedig yn fater trafod yn eich adran?

## Amser i Wrando: Argymhellion Athrawon ar gyfer Gwella Sefyllfa Addysgu a Dysgu Ieithoedd yng Nghymru

Pan ofynnwyd i'r athrawon am yr hyn y gellid ei wneud naill ai yn eu hysgolion neu ar draws y system gyfan yng Nghymru i wella sefyllfa addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol, cymerodd bron i bob un ohonynt amser i rannu eu barn broffesiynol â ni. Mae sylwadau'r athrawon yn tanlinellu'r angen i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis ieithoedd, hyrwyddo gwerth ieithoedd drwy'r ysgol gyfan ac yn enwedig, cynnal adolygiad systematig o arholiadau TGAU a Safon Uwch:

> *"Rhoi gwybodaeth i Benaethiaid er mwyn ceisio codi proffil ieithoedd. Mae rhoi cyn lleied o amser cwricwlwm i ieithoedd yn creu'r argraff nad ydynt yn bwysig. Hefyd, mae'r arholiadau TGAU a Safon Uwch yn rhy galed, ac yn amlach na heb nid ydynt yn profi'r hyn y mae'r dysgwyr wedi'i ddysgu. Mae gormod o gynnwys ac mae hynny'n dorcalonus i ddysgwyr TGAU; yn aml maen nhw'n dweud wrth ddysgwyr iau am beidio â thrafferthu gydag ieithoedd."*

> *"Mae angen addysgu arbenigol ar gyfer ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 2, ynghyd â dull gweithredu cydgysylltiedig o ran y cwricwlwm drwy'r cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd. Dylid caniatáu cynnal dosbarthiadau hyd yn oed â niferoedd bach o ddysgwyr. Yn gyffredinol, anaml iawn y gwelwyd dosbarthiadau mawr ar gyfer ieithoedd yn y Deyrnas Unedig, felly drwy wrthod cynnal dosbarth gyda 10 o ddysgwyr er enghraifft (fel y mae rhai ysgolion yn gwneud) rydyn ni'n atal ffrwd ieithegwyr, graddedigion ac athrawon y dyfodol."*

> *"Ni allaf wneud mwy na'r hyn rwy'n gwneud ar hyn o bryd i hyrwyddo ieithoedd - rydyn ni'n adran fach iawn mewn ysgol fach. Yng Nghymru mae'n rhaid i'r TGAU newydd fod yn realistig - o ran ei gynnwys a'i themâu. Rhaid dechrau ei ddysgu ym Mlwyddyn 10 gyda 4 awr o amser dosbarth bob pythefnos. Yn ogystal, mae llawer gormod o gynnwys ar gyfer Blwyddyn 12. Mae gofyn eich bod yn 'Francoffeil' i allu astudio Ffrangeg ar gyfer Safon Uwch. Mae gormod o bwyslais wedi cael ei roi ar Wybodaeth a Dealltwriaeth o natur y gymdeithas yn Ffrainc. Nid yw'r arholiad yn adlewyrchu'r dyfnder a'r amrywiaeth y mae gofyn ei addysgu mewn 8 mis, a gramadeg ar ben hynny, yn enwedig pan nad oes gyda ni restr cynnwys, dim ond penawdau. Er enghraifft, problemau Ffrancwyr. Rwy'n deall mai meithrin sgiliau iaith uwch yw'r nod, ond mae elfennau o'r cynnwys a ddewiswyd ar gyfer Uned*

*2 yr arholiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod mor arbenigol fel y byddai gofyn bod gyda chi wybodaeth drylwyr iawn ohono er mwyn gallu ateb y cwestiwn yn gywir.”*

*“Mae angen newid radical ar faes llafur y cwrs TGAU. Mae’r arholiadau hefyd yn gymaint anoddach na phynciau eraill - ac felly, nid yw’r dysgwyr yn dewis astudio ieithoedd. Mae Almaeneg hefyd yn dal i gael ei weld fel pwnc elitaidd yn CBAC - ac mai dim ond y dysgwyr mwyaf abl sy’n ei ddewis. Yn yr ysgol hon, rydym yn addysgu Almaeneg i’r grŵp blwyddyn cyfan. Ni chaiff hynny ei adlewyrchu yn y cynnwys na’r arholiadau.”*

*“Mae’r ffocws trwm iawn ar bynciau STEM wedi digwydd ar draul pynciau creadigol ac Ieithoedd Rhyngwladol. Ac eto, mae’r rhan fwyaf o gwmnïau peirianeg yn cytuno bod angen mwy o bobl â sgiliau iaith arnynt. Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud llawer mwy i godi proffil Ieithoedd Rhyngwladol - ar hyn o bryd mae athrawon Ieithoedd Rhyngwladol yn brwydro’n ofer.”*

Ag ystyried y sylwadau uchod am gynnwys TGAU ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol, mae cyhoeddi manylebau newydd CBAC ar gyfer Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg (a fydd yn cael eu haddysgu gyntaf yn 2025) yn amserol. Gobeithir y bydd y manylebau newydd yn mynd i’r afael â’r pryderon a leisiwyd gan yr athrawon a ymatebodd i’n harolwg.[9]

Soniodd nifer o’r athrawon am yr angen am fuddsoddiad ac ariannu ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol - fel sydd wedi digwydd gyda mentrau ar gyfer y Gymraeg, ac sydd i’w gweld yn gweithio’n dda:

*“Byddai’n dda cael cyllid i gyflogi Cynorthwyydd Iaith fel y gall dysgwyr weld y broses o ddysgu iaith ar waith yn y fan a’r lle maen nhw’n astudio.”*

*“Cyllid i danysgrifio i wefannau penodol a manteisio ar eu hadnoddau.”*

*“Mwy o gyllid ar gyfer ITM.”*

*“Dosbarthiadau llai o faint, mwy o arian ar gyfer tripiau rhyngwladol, athrawon â hyfforddiant arbenigol yn addysgu’r pwnc.”*

*“Gwell gwybodaeth am bosibiliadau’r gyrfaoedd sy’n agored i ddysgwyr gydag ieithoedd. Cyllid i’n galluogi i gyflogi Cynorthwywyr Iaith. Dosbarthiadau llai o faint.”*

*“Parhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo pwysigrwydd ieithoedd. Rhaid cyplysu hynny â chyllid i sicrhau nad yw dosbarthiadau’n cael eu torri pan fo niferoedd yn isel. Er bod y negeseuon am hyrwyddo ieithoedd fel rhan o’r cwricwlwm newydd yn cael ei lleisio, nid ydym yn gweld gweithredu i gefnogi hynny ac mae athrawon yn gorfod wynebu’r heriau hyn yn barhaus.”*

9 Ar adeg casglu’r data, nid oedd y manylebau newydd wedi cael eu cyhoeddi.

# Canfyddiadau Arolygon Colegau Ôl-16

## Ffocws ar addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol mewn colegau ôl-16

Yn ein bas data mae gennym fanylion cyswllt ar gyfer 12 o golegau sy'n cynnig cyrsiau mewn iaith ryngwladol. Ymatebodd 5 o'r 12 o golegau hynny i arolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* eleni. Oherwydd y nifer bach yma, caiff y ffigurau yn yr adran hon eu nodi fel rhifau crai.

Mae ein canfyddiadau o ymatebion y colegau ôl-16 yn canolbwyntio ar arholiadau Safon Uwch mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Does dim un o'r colegau a ymatebodd yn cynnig cymwysterau galwedigaethol mewn ieithoedd. Nododd un coleg ei fod yn cynnig cymhwyster Llwybrau Ieithoedd CBAC mewn Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg ac Eidaleg llafar. Yn 2024 mae dau o'r colegau a ymatebodd yn cynnig TGAU neu gymhwyster Lefel 2 mewn Ieithoedd Rhyngwladol (un yn fwy nag a nodwyd yn adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2023).* Mae un coleg hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr ail-sefyll TGAU neu gymhwyster Lefel 2 arall mewn Ieithoedd Rhyngwladol.

Am y tro cyntaf, eleni gofynnwyd i'r ymatebwyr os yw recriwtio athrawon iaith cymwysedig yn fater trafod yn eu hadrannau; dim ond un coleg a nododd fod hynny'n fater bach iddynt.

Nododd pob un o'r colegau a ymatebodd fod ganddynt ddysgwyr yn astudio Ieithoedd Rhyngwladol ym Mlwyddyn 12 ac ym Mlwyddyn 13, sy'n gynnydd o'i gymharu â ffigurau *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2023,* lle nododd tri choleg nad oedd ganddynt unrhyw ddysgwyr yn astudio Ieithoedd Rhyngwladol. Nododd dau goleg fod ganddynt dros 20 o ddysgwyr Blwyddyn 12 yn astudio Ieithoedd Rhyngwladol yn 2023/24 (Tabl 15).

| | 2023 | | 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Blwyddyn 12** | **Blwyddyn 13** | **Blwyddyn 12** | **Blwyddyn 13** |
| **5 neu lai** | 1 | 3 | 1 | 0 |
| **6-10** | 1 | 1 | 1 | 2 |
| **11-15** | 2 | 0 | 0 | 1 |
| **15-20** | 0 | 0 | 1 | 2 |
| **Mwy na 20** | 1 | 1 | 2 | 0 |
| **Dim** | 3 | 3 | 0 | 0 |

Tabl 15: Y nifer o ddysgwyr Ieithoedd Rhyngwladol yn y colegau a ymatebodd

Dim ond un o'r colegau a ymatebodd oedd yn pennu isafswm gofynnol o ddysgwyr ar gyfer cynnal dosbarth; dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf mae'r coleg wedi pennu bod angen tri o leiaf o ddysgwyr cyn y gellir cynnal dosbarth. Pan mai nifer fach yn unig o ddysgwyr sydd am astudio iaith, mae dau o'r colegau ôl-16 yn cynnal dosbarth ond yn amserlennu llai o oriau ar ei gyfer. Roedd un coleg yn cyfuno dosbarthiadau UG ac A2 tra na chynhelir unrhyw ddosbarthiadau iaith o gwbl mewn coleg arall. Nododd un coleg ei bod yn cynnal dosbarthiadau ni waeth faint yw nifer y dysgwyr.

## Ieithoedd a ddysgir mewn colegau ôl-16

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried y newidiadau (os o gwbl) yn y nifer o ddysgwyr ôl-16 sy'n dewis Ieithoedd Rhyngwladol a'r ddarpariaeth ar gyfer hynny yn eu sefydliad. Ni nododd yr un o'r colegau eu bod yn addysgu Iaith Ryngwladol 'Arall' yn eu sefydliad. Nododd dau o'r colegau a ymatebodd eu bod wedi cyflwyno cymhwyster Safon Uwch newydd mewn Ieithoedd Rhyngwladol (Almaeneg mewn un, a Sbaeneg yn y llall). Mae Ffrangeg yn parhau'n sefydlog mewn dau goleg, a Sbaeneg mewn un. Ond, yn gyffredinol, nododd pedwar o'r pum coleg a ymatebodd eu bod wedi gweld dirywiad yn y nifer sy'n astudio Ffrangeg (n=3), Almaeneg (n=2) a Sbaeneg (n=2). Nododd pob un o'r colegau a ymatebodd eu bod yn addysgu Ffrangeg; roedd pedwar yn addysgu Sbaeneg, a thri yn addysgu Almaeneg.

Wrth rannu sylwadau am y rhesymau dros y newid yn y nifer sy'n dewis astudio ieithoedd neu'r ddarpariaeth ar gyfer hynny, tynnodd ymatebwyr sylw at rai o'r ystyriaethau cyffredinol sy'n wynebu Ieithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion uwchradd, gan gynnwys graddio llym a niferoedd bach o ddysgwyr ieithoedd:

> *"Ers y llynedd, dim ond cymhwyster UG a gynigir mewn Almaeneg ac nid yw hynny mor apelgar i fyfyrwyr gan nad yw'n gymhwyster llawn. Mewn nifer o ysgolion uwchradd mae Almaeneg wedi cael ei hepgor yn llwyr."*

> *"Dim ond un o'r ysgolion uwchradd sy'n bwydo'r coleg hwn sy'n cynnig Sbaeneg ar gyfer TGAU bellach; mae hynny'n golygu fod recriwtio ar gyfer Sbaeneg yn her go iawn. Rwy'n meddwl hefyd bod natur a chynnwys y TGAU yn rhy heriol ac anodd ac wedi'i seilio 100% ar yr arholiad. […] Mae angen i fyrddau arholi edrych ar sut y gallant wneud TGAU yn fwy hygyrch a pherthnasol - byddai hynny'n helpu i danio brwdfrydedd y dysgwyr i barhau. Rwyf hefyd yn teimlo bod angen edrych eto ar arholiadau UG a Safon Uwch - o'u cymharu â phynciau eraill, maen nhw'n rhy anodd ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw elfen o waith cwrs."*

> *"Mae'r ysgolion uwchradd o'n cwmpas ni yma yn gollwng eu darpariaeth TGAU mewn Ieithoedd. Mae hynny'n effeithio ar y nifer o ddysgwyr sy'n dod atom ni i astudio ar gyfer Safon Uwch. Yn ogystal, mae angen ystyried effaith cyffredinol addysgu a dysgu Cymraeg mewn ysgolion. Yn wreiddiol, roedd pwrpas deuol i hyn sef meithrin dysgwyr dwyieithog ar y naill law a'u paratoi ar gyfer dysgu ieithoedd eraill ar y llall - ond nid yw'n ymddangos fod hyn wedi digwydd."*

> *"Mae ysgolion yn fwy tebygol o gynnig un iaith yn unig. Niferoedd bach sydd ganddyn nhw. Gyda chyflwyno Bagloriaeth Cymru, mae'r amserlen bellach yn rhy orlawn."*

## Dimensiwn Rhyngwladol

Mae Tabl 16 yn rhestri nifer o gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu'n rhyngwladol. Gofynnwyd i'r colegau nodi pa rai yr oedd eu myfyrwyr a/neu eu darlithwyr yn manteisio arnynt. Fel gyda chanfyddiadau *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2023*, nododd pob un o'r colegau a ymatebodd eu bod wedi manteisio ar o leiaf un cyfle i fagu profiad neu ymgysylltiad rhyngwladol. Mae pedwar o'r pum coleg a ymatebodd yn defnyddio Llwybrau At Ieithoedd Cymru, ac mae gan dri choleg un neu fwy o sefydliadau partner dramor.

| | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|
| Rydym yn manteisio ar weithgareddau Llwybrau At Ieithoedd Cymru | 3 | 4 |
| Mae gan ein sefydliad un neu fwy o sefydliadau partner dramor | 2 | 3 |
| Cynllun Turing ar gyfer symudedd allanol | 3 | 2 |
| Taith | 6 | 2 |
| Rydym yn cyflogi Cynorthwywyr Iaith | 2 | 1 |
| Rydym yn manteisio ar gyfleoedd a gynigir gan sefydliadau diwylliannol (ee Confucius Institute, Goethe-Institut, Institut Français, Consejería de Educación) | 3 | 1 |
| Rydym yn manteisio ar gyfleoedd rhyngwladol y British Council | 2 | 0 |
| Prosiectau Erasmus+ | 3 | 0 |
| Arall (noder os gwelwch yn dda) | 0 | 0 |

Tabl 16: Ymatebion i'r cwestiwn 'Pa gyfleoedd sydd ar gael yn eich sefydliad i fyfyrwyr a/neu ddarlithwyr fanteisio ar brofiad(au) rhyngwladol yn 2022/23 a 2023/24? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)'.


Ymysg y colegau a ymatebodd, gwelir dirywiad cyffredinol o ran manteisio ar y cyfleoedd rhyngwladol sydd ar gael ym mlwyddyn academaidd 2023/24 - yn enwedig gyda rhaglen gyfnewid 'Taith' a phrosiectau Erasmus+ (gweler Tabl 16). Roedd un coleg a ymatebodd yn cyflogi Cynorthwyydd Iaith ym mlwyddyn academaidd 2023/24. Nododd gweddill y colegau a ymatebodd mai cyfyngiadau ariannol a niferoedd bach o fyfyrwyr iaith oedd y rheswm dros beidio â chyflogi Cynorthwyydd Iaith:

> *"Cyfyngiadau ariannol a nifer fach o ddysgwyr ar gyfer Sbaeneg a Ffrangeg."*

> *"Mae'n rhy ddrud ac ni allwn ei fforddio gyda'r gyllideb sydd ar gael yma ar gyfer ieithoedd. Gan mai nifer fach iawn o ddysgwyr iaith sydd gennym, byddai cyfiawnhau'r gost hyd yn oed yn fwy anodd."*

## Technoleg Deallusrwydd Artiffisial a Thechnoleg ym Maes Addysg Ieithoedd Ôl-16

Eleni, am y tro cyntaf gofynnwyd i golegau ôl-16 ystyried eu defnydd o dechnoleg Deallusrwydd Artiffisial (DA) wrth addysgu ieithoedd. Mae Ffigwr 10 yn dangos fod pob un o'r colegau a ymatebodd yn defnyddio technoleg DA yn eu hadrannau wrth addysgu ieithoedd (yn gyson mewn un coleg, ac yn achlysurol yn y pedwar arall).




Ffigwr 10: Nifer y colegau a ymatebodd sy'n defnyddio technoleg DA wrth addysgu ieithoedd

Pan ofynnwyd i'r colegau os caniateir i ddysgwyr ddefnyddio technoleg DA i'w cynorthwyo gyda'u gwaith dysgu ieithoedd, nododd rhai o'r colegau a ymatebodd nad oeddynt yn ei ganiatáu, neu, eu bod yn annog y dysgwyr i beidio â defnyddio DA:

> *"Na, rydw i wedi annog fy nysgwyr i beidio â gwneud hyn gan fy mod yn ceisio eu haddysgu i ffurfio ei brawddegau eu hunain heb rag-baratoi neu ddysgu ymlaen llaw."*

Mae colegau eraill a ymatebodd wrthi'n paratoi canllawiau i ddysgwyr ar gyfer defnyddio technoleg o'r fath:

> *"Ar hyn o bryd rydym fel coleg wrthi'n cwblhau ein polisi ynghylch technoleg DA a fydd yn rhoi arweiniad i athrawon a dysgwyr am yr hyn a ganiateir neu beidio o ran defnyddio technoleg DA. Rydym hefyd yn mynd i fanteisio ar gyfres o gyrsiau Datblygu Proffesiynol Parhaus ar sut i wneud y gorau o dechnoleg DA yn y dosbarth ac ym mhob adran."*

> *"Er ein bod yn dal i aros i gadarnhau ein polisi, mae dysgwyr yn defnyddio technoleg DA, ac rwyf wedi eu hannog ar adegau i ddefnyddio DA (fel Mizou lle mae'r bot sgwrsio'n cymryd rhan arholwr llafar). Rwyf nawr yn ystyried trefn lle gellid defnyddio DA ar gyfer rhai agweddau o waith cartref (ond nid popeth) - er enghraifft, gwerthuso cyfieithiad a gyflawnwyd gan DA, cynllunio traethawd, cael adborth DA ar ddarn o ysgrifennu."*

## Gwella Sefyllfa Addysgu a Dysgu Ieithoedd Mewn Colegau Ôl-16

Mewn sylwadau agored, soniodd yr ymatebwyr am y frwydr sy'n eu hwynebu o ran recriwtio athrawon ar gyfer ieithoedd ac am addysgu dogn sylweddol o gynnwys mewn cyfnod byr. Pan ofynnwyd iddynt sôn am yr hyn y gellid ei wneud i wella sefyllfa dysgwyr iaith, cafwyd y sylwadau canlynol ganddynt:

> *"Hyrwyddo Ieithoedd Rhyngwladol, cyflwyno dwy Iaith Ryngwladol i'r cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 fel y gwneir yn Lloegr a'r rhan fwyaf o wledydd Ewrop."*

> *"Rwy'n credu y dylai rhannau eraill o'r coleg gynnig naill ai unedau 'Agored' ar gyfer dysgu ieithoedd neu gynnig Llwybrau Iaith CBAC fel opsiwn. Rwy'n credu ein bod ni'n gweld eisiau dosbarthiadau nos i ddechreuwyr a dysgwyr canolradd yn fawr iawn."*

> *"Gallai'r cysylltiadau rhwng Addysg Uwch, Addysg Bellach, Uwchradd a Chynradd fod yn gryfach er mwyn rhannu adnoddau a hyrwyddo dysgu ieithoedd ar lawr gwlad er mwyn cynyddu'r nifer o ddysgwyr sy'n dewis astudio ieithoedd ar gyfer cymhwysterau Lefel 3 ac uwch."*

> *"Mae angen i arholiadau newid. Mae angen i'r drefn raddio newid."*

# Dathlu Ieithoedd mewn Ysgolion Cynradd

Mae adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* eleni'n cynnwys set data amlfodd newydd. Gwahoddwyd dysgwyr Blwyddyn 6 holl ysgolion cynradd Cymru i fynegi eu syniadau, teimladau a phrofiadau o ieithoedd a dysgu ieithoedd drwy lunio poster. Cynhaliwyd *Cystadleuaeth Creu Poster Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2024* rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024. Derbyniwyd 69 o geisiadau sy'n amlygu ehangder a dyfnder gwybodaeth y dysgwyr am ieithoedd a phrofiadau o ddysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd.

Gan gydnabod y gall cynnal arolygon blynyddol neu bob yn ail flwyddyn olygu fod ymatebwyr yn blino ar lenwi holiaduron, aethpwyd ati i recriwtio cyfranogwyr newydd a chasglu data dysgwyr ar gyfer adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* drwy gynnig cyfleoedd creadigol i ddysgwyr a darparu gweithgareddau dosbarth perthnasol i athrawon. I hybu cyfranogiad ysgolion a rhoi cymorth i athrawon, darparwyd deunyddiau penodol ar gyfer *Cystadleuaeth Creu Poster Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2024*. Roedd yr adnoddau'n cynnwys cynlluniau gwersi llunio poster a oedd yn cynnwys amcanion y wers yn ogystal â disgrifiadau o'r deilliannau dysgu i ategu *Meysydd Dysgu: Celfyddydau Mynegiadol, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'r Cwricwlwm Cenedlaethol* newydd; nodiadau i athrawon a chanllawiau ar sut i gyflwyno'r wers; ac adnoddau dysgu gweledol i'w defnyddio yn y dosbarth (gweler yr Atodiad).

Anfonwyd gwahoddiad i gymryd rhan yn y gystadleuaeth i gyfeiriadau ebost pob Pennaeth ysgol gynradd yng Nghymru oedd â chyfeiriad ebost ar gael yn gyhoeddus. Yn ogystal, darparwyd ffurflenni eithrio i rieni os nad oedd rhieni/gwarcheidwaid yn dymuno i'w plentyn/plant gymryd rhan. Hefyd, gofynnwyd i'r plant roi eu cydsyniad gwybodus eu hunain i gymryd rhan. Dim ond posteri â ffurflenni cydsynio wedi'u cwblhau a gafodd eu cynnwys yn ein set data.

I gydnabod cyfranogiad y dysgwyr a'u cyfraniad i'r ymchwil, hysbyswyd yr ysgolion y byddai'r posteri'n cael eu harddangos yn y digwyddiad i lansio adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2024* ac anfonwyd gwahoddiadau i enillwyr y gystadleuaeth i fynychu'r lansiad yng nghwmni rhiant/gwarcheidwad.

Roedd blaenoriaeth yr ymchwil i amlygu syniadau, teimladau a phrofiad y dysgwyr o ieithoedd a dysgu ieithoedd yn greiddiol i'r gwaith o ddadansoddi set data posteri'r dysgwyr. Yn gyntaf, roedd hyn yn golygu crynhoi a chydosod gwybodaeth am ba ieithoedd a gynrychiolwyd a sut y cafodd gwahanol fathau o elfennau gweledol eu cyflwyno yn y set data. Yn ail, nodwyd cynrychiolaeth dybiannol a/neu natur gysyniadol yr ieithoedd a oedd yn bresennol yn set data'r posteri; cafodd y rhain eu hamgodio'n thematig. Yn drydydd, archwiliwyd y set data i ganfod a nodi'r teimladau a phrofiadau personol a fynegwyd gan y dysgwyr am ddysgu ieithoedd. Mae'n bwysig nodi bod ein canllawiau i athrawon yn pwysleisio fod y dysgwyr yn rhydd i ddewis beth bynnag yr oeddynt eisiau ei gynnwys yn eu posteri gan gynnwys safbwyntiau cadarnhaol a/neu negyddol am ieithoedd a dysgu ieithoedd. Er mwyn dadansoddi set data'r dysgwyr mewn modd cadarn y gellid ei ddyblygu, defnyddiodd y tîm ymchwil feddalwedd rheoli data ansoddol. Cafodd hwn ei ddefnyddio i dracio amgodio ansoddol y data a hwyluso mesuriadau dibynadwyedd cyd-raddio gan sicrhau bod ein proses o ddadansoddi'r set data amlfodd ansoddol yn drylwyr a thryloyw.

Un o'r pethau sy'n eich taro'n syth am set data posteri'r dysgwyr yw'r nifer a'r amrywiaeth o ieithoedd a nodir gan y plant ym Mlwyddyn 6. O'r posteri a dderbyniwyd, cyfeiriwyd at gyfanswm o 70 o wahanol ieithoedd. Rhestrir y deg iaith a enwyd amlaf isod:

| Rhestr o drefn yr ieithoedd ar sail pa mor aml y cânt eu crybwyll | Yr iaith y sonnir amdani |
|---|---|
| 1 | Ffrangeg |
| 2 | Sbaeneg |
| 3 | Japaneg |
| 4 | Almaeneg |
| 5 | Portiwgaleg |
| 6 | Mandarin |
| 7 | Arabeg |
| 8 | Eidaleg |
| 9 | Cymraeg |
| 10 | Rwsieg |

Tabl 17: Y deg iaith a enwyd amlaf yn set data Posteri'r Disgyblion

Dewisodd y dysgwyr ysgrifennu enwau'r gwahanol ieithoedd mewn amryw o ffyrdd gwahanol, gan gynnwys fersiwn wreiddiol yr iaith neu fersiwn wedi'i symleiddio (e.g. にほんご), fersiynau wedi'u Seisnigo a/neu fersiynau wedi'u Rhufeinio. Roedd rhai posteri'n cynnwys delweddau o ieithoedd arwyddion, ac eraill yn cyfeirio'n benodol at amrywiadau o ieithoedd â'r un enw (e.e. Saesneg Americanaidd, Saesneg Prydeinig).




Ffigwr 11: Rhannau o rai o'r posteri (039; 049; 063)

Yn y rhan fwyaf o'r posteri a dderbyniwyd (81 y cant) roedd y dysgwyr wedi cynnwys ymadroddion a chyfarchion amlieithog i gyd-fynd â'r cyfeiriadau amrywiol at y gwahanol ieithoedd a nodwyd.




Ffigwr 12: Rhannau o boster (055)


Roedd mwyafrif y posteri amlieithog yn y set data'n cynnwys tair iaith neu fwy (heblaw am Gymraeg a Saesneg), gan ddangos tystiolaeth o amlieithrwydd cynnar y bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymchwil. Nid yn unig mae'r posteri hyn gan ddysgwyr Blwyddyn 6 yn dangos eu gwybodaeth eang am ieithoedd y byd, ond hefyd sut y maent yn defnyddio'r ieithoedd y maent yn eu gwybod.




Ffigwr 13: Rhan o boster (035)

O ystyried y datblygiadau diweddar yn y cwricwlwm cynradd, gall hyn fod yn dystiolaeth, neu o leiaf yn arwydd posib, o ganlyniadau addysgu a dysgu yn y maes hwn. Yr hyn sy'n amlwg yw bod y set data yma'n dangos repertoire amlieithog y dysgwyr ar waith. Mae hefyd yn dangos fod dysgwyr cynradd yn deall yn barod bod amrywiaeth o wahanol ieithoedd yn rhan o'r byd o'u cwmpas. Bydd angen rhoi sylw pellach i ba raddau y gellir manteisio ar yr amlieithrwydd cynnar yma sy'n cael ei feithrin mewn ysgolion cynradd, a sut y gellir ei gynnal wrth bontio i gyd-destunnau ôl-gynradd fel y bydd yn sbarduno cynydd yn y nifer sy'n dewis astudio ieithoedd yn y cyfnod ôl-gynradd.


Yn ogystal â'r elfennau amlieithog, roedd y posteri yn set data'r dysgwyr cynradd yn dangos amrywiaeth eang o nodweddion gweledol sy'n arwydd o wybodaeth fyd-eang a diwylliannol y dysgwyr. Mae'r nodweddion gweledol hyn yn cynnwys lluniau o globau, baneri, mapiau a thirnodau geowleidyddol a bwydydd. Roedd y rhan fwyaf o'r posteri (dros 80 y cant) yn cynnwys lluniau o faneri a darluniadau gweledol o'r ddaear fel glôb. Mae rhai posteri'n cynnwys mapiau o wledydd a mapiau o'r byd o amryw o wahanol bersbectifau hefyd. Dangosir enghreifftiau o'r gwahanol nodweddion gweledol hyn yn Ffigwr 14:




Ffigwr 14: Rhannau o bosteri yn dangos nodweddion gweledol (005; 012; 017; 018; 024; 026; 029; 039; 045)

Mae'r nodweddion gweledol hyn yn set data posteri'r dysgwyr yn cynnig cipolwg ar yr ystyron y mae'r dysgwyr yn eu cysylltu â byd â nifer o ieithoedd, a sut mae ieithoedd yn rhan o'r broses o feithrin eu chwilfrydedd am ddiwylliannau'r byd. I archwilio sut y cynrychiolwyd syniadaeth y dysgwyr yn y posteri, craffodd y tîm ymchwil ar y data gan ddefnyddio dull amgodio anwythol i nodi'r themâu sy'n categoreiddio'r ystyron a gyflwynir yn y posteri. O ran y syniadaeth a welwyd yn y set data, daeth dwy thema allweddol i'r amlwg: 'ieithoedd fel rhan o'r byd' a 'ieithoedd fel ffordd o gysylltu'.

**Ieithoedd fel rhan o'r byd:** Mae delweddau o'r byd fel glôb yn elfen amlwg iawn o set data'r posteri. Tra bod llun o glôb gyda'i foroedd glas a'i dir gwyrdd yn ffordd benodol o gyfleu nodweddion daearyddol, yn aml yn set data'r posteri mae gan y globau nodweddion dynol hefyd - fel llygaid, ceg, dwylo, breichiau a choesau (gweler Ffigwr 15). Mae'r portreadau hyn o globau yn cyfleu nodweddion emosiynol-gymdeithasol fel bod yn hapus, yn groesawgar, gwenu a bod yn iach, cŵl a chryf.



Ffigwr 15: Rhannau o bosteri (027; 036; 055; 056; 057; 066)


Mewn posteri eraill sy'n cynnwys delweddau o'r byd fel glôb, dangosir y ddaear yn siarad yn uniongyrchol â'r sawl sy'n edrych ar y poster. Yn yr enghreifftiau hynny mae'r glôb yn dweud wrthym faint o ieithoedd mae 'e' yn eu siarad, pam fod dysgu ieithoedd yn bwysig a beth y gallwch ei wneud gydag ieithoedd. Er enghraifft, mae'r ddau boster yn Ffigwr 16 yn cyfleu'r syniad hwn o fyd sy'n gallu siarad - law yn llaw â'r cysyniad bod gan ieithoedd bŵer arbennig (e.e. 'pŵer ieithoedd', 'teimlwch y pŵer o gwmpas y byd i gyd', 'pŵer iaith').




Ffigwr 16: Rhannau o bosteri (068; 069)


Mae'r portreadau hyn o ieithoedd a dysgu ieithoedd sy'n defnyddio delweddau o globau (sy'n ymddangos yn gyson drwy'r set data) yn dangos sut y mae dealltwriaeth pobl ifanc o ieithoedd yn cyd-glymu â'u dealltwriaeth o'r byd. Wrth edrych ar y posteri hyn, ymddengys fod y dysgwyr cynradd a gymerodd ran yn yr ymchwil yn gweld ieithoedd fel rhywbeth byd-eang, a rhywbeth sy'n pethyn i'r byd; maent yn eu cysylltu â syniadau am gyfathrebu, bod yn effro'n geowleidyddol, a bod yn gryf ac iach.

Mae ail thema allweddol y set data'n deillio o'r ffordd y mae'r dysgwyr yn cyfleu pwysigrwydd ieithoedd ar gyfer rhyngweithio, teithio a gwella cyfathrebu a chysylltiadau. Mae un o bob pedwar o'r posteri a dderbyniom yn adlewyrchu thema **'ieithoedd fel ffordd o gysylltu'.** Mewn un poster, mae pontydd yn ymestyn allan o'r byd i gyd-gysylltu elfennau sy'n cynrychioli gwahanol wledydd a gwahanol ieithoedd.




Ffigwr 17: Rhan o boster (050)

Yn ogystal, mae posteri'r dysgwyr yn cyfleu'r syniad fod ieithoedd yn angenrheidiol ar gyfer cysylltiadau lleol iawn a chysylltiadau rhwng unigolion. Mae dysgwyr yn cyfeirio'n benodol at sut maent yn defnyddio'r gwahanol ieithoedd y maent yn eu gwybod i siarad â'u ffrindiau ac wrth ymweld ag aelodau teulu sy'n byw mewn gwahanol lefydd (gweler Ffigwr 18 isod).




Ffigwr 18: Rhannau o bosteri (014; 052)


Wrth osod canfyddiadau'r dadansoddiad thematig yma ochr yn ochr â'r dystiolaeth o ddatblygiad repertoire amlieithog y dysgwyr a'r ymwybyddiaeth ddiwylliannol wybodus a amlygwyd yn ein dadansoddiad ieithyddol a gweledol, ceir dirnadaeth bellach o'r hyn y mae pobl ifanc yn ei wybod a'i ddeall am ieithoedd a'u rôl yn eu bywydau ac yn eu byd. Mae'n glir fod gan y bobl ifanc a gyfranodd i'r set data yma ystod eang o wybodaeth am sut y mae'r byd yn gweithio drwy ddefnydd o wahanol ieithoedd, y cysylltiad rhwng ieithoedd a lleoliadau daearyddol a pherthynas eiconig ieithoedd â phethau a llefydd. Yn ogystal, maent yn ymwybodol o natur y gwahanol gysylltiadau sydd gan ieithoedd ag iechyd, rhyngweithio cymdeithasol a chynwysiad diwylliannol.

Yn olaf, rydym am sôn am y canfyddiadau am deimladau dysgwyr am ieithoedd a'u profiadau o ddysgu ieithoedd yn yr ysgol a adlewyrchwyd yn eu posteri. Mae'n bwysig nodi bod canllawiau'r gystadleuaeth i greu poster yn atgoffa athrawon a dysgwyr eu bod yn rhydd i gynnwys beth bynnag yr oeddynt eisiau yn eu posteri ac y gallai hynny gynnwys safbwyntiau cadarnhaol a/neu negyddol am ieithoedd a dysgu ieithoedd. Er hynny, nid oedd yr un poster a dderbyniwyd yn cyfleu safbwynt negyddol am ieithoedd a/neu ddysgu ieithoedd. Roedd chwech o bob deg poster yn cyflwyno agweddau cadarnhaol am ddysgu ieithoedd, gan gynnwys elfennau darluniadol fel calonnau, wynebau'n gwenu ac ymadroddion fel 'caru dysgu ieithoedd' a datganiadau personol fel: 'Dw i'n mwynhau dysgu ieithoedd achos....'. Gan nad oedd y farn am ieithoedd a dysgu ieithoedd a gyflwynwyd gan y pedwar poster o bob deg arall yn y set data yn gadarnhaol nac yn negyddol cawsant eu hystyried yn niwtral. Roedd y posteri yn y categori hwnnw'n cyflwyno ffeithiau am ieithoedd a siaredir mewn gwahanol wledydd, poblogaethau gwahanol wledydd ac mewn ambell achos, disgrifiadau hanesyddol. Gwelir enghreifftiau o bosteri a glustnodwyd naill fel rhai cadarnhaol neu rai niwtral yn Ffigwr 19 isod:




Ffigwr 19: Rhannau o bosteri (007; 011; 057; 067)

Roedd y posteri a anfonwyd i'r gystadleuaeth gan ddysgwyr Blwyddyn 6 hefyd yn cyfleu negeseuon cadarnhaol am ieithoedd a dysgu ieithoedd: 'mae bywyd yn grêt' meddai un poster, tra bod un arall yn ein hannog i 'ddysgu un'. Yn gyffredinol mae'r negeseuon ym mhosteri'r bobl ifanc yn gweld bod nifer o ieithoedd ac ieithoedd gwahanol yn beth positif. Yn ychwanegol at y sylwadau a'r teimladau cadarnhaol a fynegir gan y dysgwyr yn eu posteri, dewisodd rhai i gynnwys geiriau ac ymadroddion sy'n rhoi rhesymau penodol a phersonol am bwysigrwydd ieithoedd a dysgu ieithoedd iddynt (e.e. 'maen nhw'n gwneud i fi fod yn fwy hyderus'; 'cael fy nerbyn'; 'mae'r byd yn well lle gydag ieithoedd gwahanol a llefydd gwahanol i ymweld â nhw'; 'Dw i'n mwynhau dysgu ieithoedd achos mae'n gyfle i brofi llefydd o gwmpas y byd') ochr yn ochr â delweddau o fyd natur (e.e. blodau, dail, coed, yr haul).




Ffigwr 20: Rhannau o bosteri (053; 056; 064)

Wrth ystyried sut mae’r dysgwyr yn cyfleu eu profiadau penodol eu hunain o ddysgu ieithoedd, gwelwyd bod y rhain hefyd yn eithriadol o gadarnhaol. Roedd dysgwyr yn disgrifio eu profiadau o ddysgu ieithoedd fel ‘diddorol’ a ‘jest yn hwyl’. Er na welwyd unrhyw dystiolaeth o brofiadau dysgu negyddol yn y set data, ni ddylid cymryd yn ganiataol nad yw profiadau rhai dysgwyr cynradd yn negyddol. Er bod ein canllawiau’n atgoffa pawb fod y dysgwyr yn rhydd i gynnwys profiadau negyddol a chadarnhaol, mae’n bur debyg bod natur cystadleuaeth i greu poster a’r broses o’i hybu gan hyrwyddwyr a sefydliadau addysgu ieithoedd wedi cael rhywfaint o ddylanwad ar y dysgwyr a’u hathrawon o ran cyflwyno safbwyntiau cadarnhaol neu niwtral yn unig wrth gymryd rhan yn y gystadleuaeth. Mae set data’r posteri’n dangos bod gan rhai dysgwyr ddealltwriaeth o wahanol fathau a graddau o hyfedredd ieithyddol. Er enghraifft, mae rhai dysgwyr yn nodi: ‘Dw i’n gallu siarad ychydig o Bortiwgaleg, ond dw i ddim yn rhugl’; ‘ieithoedd dw i’n siarad yn rhugl, ieithoedd dw i’n rhyw fath o wybod’; ‘Dw i’n gallu siarad mymryn bach o Ffrangeg’. Unwaith eto, mae canfyddiadau’r set data yma’n tanlinellu’r ffaith bod dysgwyr cynradd yn ymwybodol fod ganddynt repertoire amlieithog ac yn ymwybodol eu bod yn ei defnyddio. Maent hefyd yn glir o ran nodi eu hanghenion a’u dyheadau i ddysgu a pharhau i ddysgu ieithoedd.




Ffigwr 21: Rhannau o bosteri (030; 048)

## Casgliad

Mae'r set data amlfodd newydd ar gyfer *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* a ddeilliodd o'r posteri a anfonwyd gan ddysgwyr Blwyddyn 6 i *Gystadleuaeth Creu Poster Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2024* yn amlygu dealltwriaeth a phrofiadau'r dysgwyr a gymerodd ran o ddysgu a defnyddio nifer o wahanol ieithoedd. Dengys ein dadansoddiad fod gan y dysgwyr a gymerodd ran yn y gystadleuaeth agwedd gadarnhaol at ieithoedd a bod ganddynt lawer o wybodaeth am ieithoedd a diwylliannau; a'u bod hefyd yn fodlon a pharod i ddefnyddio'r ieithoedd y maent yn eu gwybod. Yn gyntaf, wrth astudio nodweddion ieithyddol a gweledol y posteri, gwelir tystiolaeth fod gan bobl ifanc wybodaeth eang ac amrywiol o ieithoedd y byd sy'n cyd-daro â'u defnydd o repertoires amlieithog sy'n tyfu o hyd. Yn ail, mae'r modd y mae'r dysgwyr yn cyfleu eu syniadaeth am ieithoedd yn eu posteri yn arwydd o ddyfnder eu gwybodaeth am sut mae'r byd yn gweithio drwy gyfrwng gwahanol ieithoedd. Maent yn deall bod ieithoedd yn fanteisiol i iechyd, yn gyfrwng i alluogi cynhwysiad diwylliannol a hefyd bod gan ieithoedd gyd-destun geowleidyddol. Roedd dwy thema amlwg yn set data'r posteri sef, 'ieithoedd fel rhan o'r byd' a 'ieithoedd fel cysylltiadau'. Wrth fynegi eu dealltwriaeth a'u teimladau am ieithoedd a dysgu ieithoedd, mae'r dysgwyr yn dangos fod persbectifau rhyngwladol a byd-eang yn 'norm' iddynt. Maent yn gweld ieithoedd fel rhan allweddol o feithrin a chynnal cysylltiadau gyda phobl yn lleol ac yn fyd-eang.

Yn olaf, o ran y broses o ddysgu ieithoedd, mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr Blwyddyn 6 a gymerodd ran yn cyflwyno eu profiad fel rhywbeth cadarnhaol. O'u safbwynt nhw, mae llawer o resymau i ddysgu ieithoedd, ac mae gwneud hynny'n hwyl hefyd. Does fawr ddim arwydd eu bod yn dymuno rhyngweithio â'r byd drwy gyfrwng un neu ddwy iaith yn unig, ac mae ganddynt syniadau craff yn barod am y berthynas rhwng hyfedredd ieithyddol a chyd-destun.

Yn wahanol i ganfyddiadau ôl-gynradd yr adroddiad hwn, mae'n ymddangos bod cyfleoedd i ddysgu ieithoedd, repertoires amlieithog a meysydd dysgu yn datblygu'n gadarnhaol drwy gyfnodau addysg gynradd ysgolion Cymru. Ond, mae'n bur debyg y bydd angen rhoi sylw mawr i ba raddau y gellir meithrin a chynnal yr amlieithrwydd hyderus a chynyddol hwn mewn cyd-destunau ôl-gynradd.

# Casgliad

Fel bob tro, mae'r gwaith addysgu ieithoedd rhagorol gan athrawon mewn dosbarthiadau ledled Cymru yn gwbl amlwg yn y data a gasglwyd ar gyfer adroddiad eleni, er gwaetha'r heriau lu sy'n effeithio dyfodol addysg Ieithoedd Rhyngwladol.

Roedd amryw o gwestiynau'r arolwg yn cynnig cyfle i athrawon a darlithwyr rannu eu profiadau a'u barn broffesiynol am sefyllfa addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru. Mae ymatebwyr wedi mynegi pryderon dwys am gyfyngiadau ariannol, y niferoedd isel o ddysgwyr sy'n dewis ieithoedd, cynnwys arholiadau a graddio llym sydd wedi cael effaith negyddol ar sefyllfa addysgu a dysgu ieithoedd mewn ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16 yng Nghymru. Nododd bron i 70 y cant o'r ysgolion yn ein set data naill ai nad oedd yr un, neu lai na deg y cant, o ddysgwyr Blwyddyn 10 yn astudio Iaith Ryngwladol ar gyfer TGAU. Mynegwyd pryderon am y diffyg dewisiadau ar gyfer TGAU ac amharodrwydd dysgwyr i ddewis astudio pwnc a ystyrir yn anodd â threfn raddio llym. Gwelwyd mai'r rhain oedd y prif rwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag astudio Iaith Ryngwladol yn ychwanegol i Gymraeg. Er bod nifer yr athrawon a nododd bod llai o ddysgwyr yn dewis Iaith Ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi lleihau o 49 y cant yn 2023 i 38 y cant yn 2024, mae tipyn o ffordd i fynd eto o ran annog mwy o ddysgwyr i ddilyn trywydd addysg ieithoedd a chynnal brwdfrydedd am ieithoedd drwy gydol eu siwrne addysgol.

Wrth edrych ar ein cystadleuaeth creu poster i ysgolion cynradd eleni, mae'n glir bod ymarferwyr cynradd yn gweithio'n galed i feithrin amgylchedd ddysgu luosieithog yn eu hysgolion, a bod hynny'n hybu datblygiad pobl ifanc greadigol ac ymholgar drwy agor llwybrau iddynt archwilio gwahanol ieithoedd, diwylliannau a gwledydd. Wrth edrych ar yr holl bosteri bendigedig a grewyd gan ddysgwyr Blwyddyn 6, nododd y tîm ymchwil bod cyfeiriadau ynddynt at 70 o ieithoedd gwahanol yr oedd y dysgwyr cynradd yn gwybod amdanynt. Yn yr oedran ifanc hwn, mae'r dysgwyr yn amlwg yn datblygu meddylfryd byd-eang; mae datblygu hynny ymhellach drwy gyfnodau eu haddysg uwchradd, bellach ac uwch yn hanfodol.

# Llyfryddiaeth/Cyfeiriadau


Ayres-Bennett, W. (2023) 'Modern Languages Research: Towards a Challenge-Based Interdisciplinary Model', *Modern Languages Open*, (1)3, tud. 1–20. [Ar-lein] Ar gael yma: https://doi.org/10.3828/mlo.v0i0.423

British Academy (2024) *Students choosing less diverse range of subjects post-16 than they did two decades ago, new research finds*.[Ar-lein] Ar gael yma: https://www.thebritishacademy.ac.uk/news/report-shows-students-choosing-less-diverse-range-of-subjects-post-16/ (Cyrchwyd - Medi 2024)

British Academy, the Arts and Humanities Research Council, the Association of School and College Leaders, the British Council, and Universities UK (2020) *Towards a National Languages Strategy: Education and Skills*. [Ar-lein] Ar gael yma: https://www.thebritishacademy.ac.uk/documents/2597/Towards-a-national-languages-strategy-July-2020_R0FHmzB.pdf (Cyrchwyd - Awst 2024)

British Council (2017) *Languages for the Future*. [Ar-lein] Ar gael yma: https://www.britishcouncil.org/research-insight/languages-future-2017 (Cyrchwyd - Awst 2024)

British Council (2023) *How language assistants can transform the teaching of foreign languages*. [Ar-lein] Ar gael yma: https://www.britishcouncil.org/school-resources/stories-classroom/how-language-assistants-can-transform-teaching-foreign-languages (Cyrchwyd - Medi 2024)

Humphries, E., Carruthers, J. and Henderson, L. (2024) 'Qualifications in home languages: opportunities, barriers and policy implications', *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, tud. 1–18. [Ar-lein] Ar gael yma: https://doi.org/10.1080/01434632.2023.2288292

JCQ (2024) *Examination results*. [Ar-lein] Ar gael yma: https://www.jcq.org.uk/examination-results/ (Cyrchwyd - Medi 2024)

StatsCymru (2024) *Data cryno Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn ôl awdurdod lleol (disgyblion rhwng 5 a 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd)*. [Ar-lein] Ar gael yma https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/pupillevelannualschoolcensussummarydata-by-localauthority (Cyrchwyd - Medi 2024)

StatsCymru (2024) *Ysgolion yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o gyfrwng Cymraeg.* [Ar-lein] Ar gael yma: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Schools/schools-by-localauthorityregion-welshmediumtype (Cyrchwyd - Hydref 2024)

Llywodraeth Cymru (2021) *Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.* [Ar-lein] Ar gael yma: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu (Cyrchwyd - Awst 2024)

CBAC (2024) *Amlinelliadau o'r cymwysterau a chrynodebau o'r ymgynghoriadau*. [Ar-lein] Ar gael yma: https://www.cbac.co.uk/home/cymwysterau-mewn-datblygiad/gwneud-i-gymru-mae-cbac-yn-barod-i-ddarparu/amlinelliadau-or-cymwysterau-a-chrynodebau-or-ymgynghoriadau/ (Cyrchwyd - Hydref 2024)

## Adnoddau Defnyddiol

British Council England:
https://www.britishcouncil.org/

British Council Northern Ireland:
https://nireland.britishcouncil.org/

British Council Scotland:
https://scotland.britishcouncil.org/

British Council Cymru:
https://wales.britishcouncil.org/

CCD (Consortiwm Canolbarth y De):
https://www.cscjes.org.uk/

Cerdd Iaith:
https://cerddiaith.com/

GCA (Gwasanaeth Cyflawni Addysg):
https://sewaleseas.org.uk/cymraeg/

GIMAGINE (Goethe-Institut):
https://www.goethe.de/ins/gb/en/spr/drm.html

GwE (Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarth Gogledd Cymru): https://www.gwegogledd.cymru/

Porth Ieithoedd / Languages Gateway:
https://www.thelanguagesgateway.uk/

Language Gym: https://www.language-gym.com/

Mentora ITM: https://mflmentoring.co.uk/cy/ni-yw-y-lab-cymraeg/

PACC (Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru):
https://www.pacc.cymru/

Cyngor Castell-nedd Port Talbot:
https://beta.npt.gov.uk/cy/ysgolion-a-dysgu/

Partneriaeth: https://www.partneriaeth.cymru/?_locale=cy

Llwybrau at Ieithoedd Cymru:
https://routesintolanguagescymru.co.uk/cy/croeso/

Think German: www.thinkgerman.org.uk

UK-German Connection:
https://ukgermanconnection.org/

## Deunyddiau Dysgu ar gyfer y Gystadleuaeth Creu Poster:

Language Trends Wales Poster Competition 2024- Lesson

Language Trends Wales Poster Competition 2024- PPT

Tueddiadau Ieithoedd Cymru Cystadleuaeth Poster 2024 - Gwers

Tueddiadau Ieithoedd Cymru Cystadleuaeth Poster 2024- PPT

www.britishcouncil.org